

Hanes

Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3



Dewi Sant (St David) 5-6c



Idris (St Idris) 10-11c



Owain ap Hywel (St Owain) 10-11c



Rhys ap Iorwerth (St Rhys) 12-13c



Museum Cymru (National Museum Wales) 19-20c



Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Hanes

Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3

- Cynulleidfa** Athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; tiwtoriaid hyfforddiant cychwynnol athrawon; a phobl eraill sydd â diddordeb mewn datblygiad proffesiynol parhaus.
- Trosolwg** Mae'r deunyddiau hyn yn darparu negeseuon allweddol ar gyfer cynllunio dysgu ac addysgu mewn hanes. Maen nhw'n cynnwys proffiliau o waith dysgwyr er mwyn egluro'r safonau a amlinellir yn y disgrifiadau lefel ac yn dangos sut i ddefnyddio disgrifiadau lefel wrth lunio barn sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad dysgwr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.
- Camau i'w cymryd** Adolygu'r cynlluniau a'r gweithgareddau dysgu yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, a pharatoi ar gyfer llunio barn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: is-adrancwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu
- Dogfennau cysylltiedig** *Hanes yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru; Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru; Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig; Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)*

Mae'r canllawiau hyn ar gael yn Saesneg hefyd.

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Defnyddio'r deunyddiau hyn	4
Adran 1	
Negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu mewn hanes	7
Adran 2	
Disgwyliadau a dilyniant mewn hanes	25
Adran 3	
Defnyddio'r disgrifiadau lefel yng Nghyfnod Allweddol 2	31
Katie – nodweddion o Lefelau 2 a 3	33
Sara Lois – nodweddion o Lefelau 3, 4 a 5	45
Adran 4	
Llunio barn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3	55
Anwen – Lefel 4	57
Mari – Lefel 6	67
Cydnabyddiaethau	78

Cyflwyniad

Mae'r rhaglenni astudio yn nodi'r cyfleoedd y dylid eu rhoi i ddysgwyr ym mhob cyfnod allweddol, ac maen nhw'n darparu'r sail sy'n eich galluogi chi, fel athrawon, i gynllunio gwaith dysgu ac addysgu. Mae'r rhaglenni astudio wedi eu rhannu'n ddwy adran, sef Sgiliau ac Ystod. Mae'r adran Sgiliau yn rhestru'r sgiliau y dylid eu datblygu mewn pwnc, ac mae'r adran Ystod yn nodi'r cyfleoedd a'r cyd-destunau y dylid eu defnyddio i ddatblygu ac atgyfnerthu'r sgiliau hynny.

Mae asesu ffurfiannol parhaus – asesu **ar gyfer** dysgu – yn hanfodol i addysgu da. Drwy'r asesiadau y byddwch yn eu gwneud wrth addysgu, byddwch yn casglu gwybodaeth helaeth am gryfderau eich dysgwyr, a'r meysydd mae angen eu datblygu ymhellach. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i'ch helpu i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Bydd y dysgwyr hefyd yn dod i ddeall nodau dysgu penodol a'r meini prawf llwyddiant sy'n gysylltiedig â nhw fel eu bod, gyda'ch cymorth chi, yn medru datblygu eu gallu i hunanasesu ac asesu cyfoedion. Wrth wneud hynny, bydd modd iddyn nhw weld ble maen nhw arni ar hyn o bryd, gosod targedau a gweithio tuag atyn nhw, a darganfod pryd neu os llwyddwyd i'w cyrraedd. Mae targedau unigol yn gysylltiedig â gwella ansawdd gwaith dysgwr, fel y nodir mewn adborth ffurfiannol, ac maen nhw felly'n gysylltiedig â meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau penodol. Nid yw disgrifiadau lefel yn dargedau effeithiol am eu bod yn disgrifio cyrhaeddiad ar draws ehangder y rhaglen astudio ar ddiwedd cyfnod allweddol.

Drwy nodi disgwyliadau ar lefelau penodol a dilyniant yn y pwnc, gall disgrifiadau lefel helpu i lywio eich gwaith cynllunio, addysgu ac asesu yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3. Bydd tystiolaeth o waith asesu ar gyfer dysgu yn dangos ble mae angen mwy o amser i atgyfnerthu'r dysgu ac yn dangos pryd bydd dysgwyr yn barod i symud ymlaen. Efallai y byddwch am gadw rhywfaint o dystiolaeth fel y gallwch drafod gwaith a dilyniant dysgwr gyda nhw a/neu gydweithwyr neu rieni/warcheidwaid. Er hynny, nid yw cadw cofnodion sy'n ddiangen o gymhleth neu gadw tystiolaeth fanwl am bob dysgwr yn ofyniad statudol.

Swyddogaeth hanfodol disgrifiadau lefel yw eich helpu i lunio barn grynodol a chytbwys am berfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Nid yw disgrifiadau lefel wedi eu cynllunio i'w defnyddio i bennu lefel ar gyfer darnau unigol o waith nac i gynhyrchu data bob hanner tymor neu bob tymor. Dim ond ar ddiwedd y cyfnod allweddol y byddwch wedi casglu digon o wybodaeth am berfformiad dysgwr ar draws ystod o waith, ac mewn amrywiaeth o gyd-destunau, i'ch galluogi i lunio barn mewn perthynas â'r disgrifiadau lefel.

Hwyrach y bydd rhai dysgwyr wedi cyrraedd lefel uwch mewn rhai agweddau ar y gwaith nag agweddau eraill, ac na fydd un disgrifiad lefel ar ei ben ei hun yn cyd-fynd yn union â'u perfformiad. Mae hynny i'w ddisgwyl, ac mae'r ystod o waith dysgwyr unigol sydd wedi ei gynnwys yn y deunyddiau hyn yn dangos sut i lunio barn am y lefel sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad dysgwr dan amgylchiadau o'r fath. I lawer o ysgolion/adrannau, mae datblygu eu proffiliau dysgwyr eu hunain wedi bod o gymorth i safoni barn ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Mae'r proffiliau hynny hefyd yn helpu i gynnal dealltwriaeth gyffredin o safonau pan maen nhw'n cael eu hadolygu'n flynyddol a'u diweddarau pan fo angen.

Pan fydd barn yn cael ei llunio ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, dylech benderfynu pa ddisgrifiad lefel sy'n **cyd-fynd orau** â pherfformiad dysgwr. Y nod yw cael barn gytbwys:

- sy'n seiliedig ar eich gwybodaeth am y modd y mae'r dysgwr yn perfformio ar draws ystod o gyd-destunau
- sy'n ystyried gwahanol gryfderau a meysydd mae angen eu datblygu ym mherfformiad y dysgwr dan sylw
- a gaiff ei chymharu â disgrifiadau lefel cyfagos er mwyn sicrhau mai'r lefel y tybir ei bod fwyaf priodol yw'r lefel sy'n cyd-fynd orau'n gyffredinol â pherfformiad y dysgwr yn y targed cyrhaeddiad.

Mae deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol wedi'u hysgrifennu ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio islaw Lefel 1. Deilliannau anstatudol yw'r rhain, a bwriedir darparu arweiniad ar gyfer eu defnyddio.

Defnyddio'r deunyddiau hyn

Mae'r llyfryn hwn wedi'i rannu'n bedair adran.

Adran 1	sy'n tynnu sylw at negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu mewn hanes.
Adran 2	sy'n tynnu sylw at ddisgwyliadau a dilyniant mewn hanes.
Adran 3	sy'n cynnwys cyfres o broffiliau dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 2. Diben y rhain yw dangos nodweddion y disgrifiadau lefel.
Adran 4	sy'n cynnwys cyfres o broffiliau dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 3. Diben y rhain yw dangos y defnydd a wneir o'r disgrifiadau lefel wrth lunio barn am berfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Gallwch gyfeirio at y llyfryn hwn pan fyddwch am:

- adolygu eich cynlluniau a'ch gweithgareddau dysgu
- ystyried y safonau a amlinellir yn y Gorchymyn hanes diwygiedig
- cydweithio ag athrawon eraill er mwyn meithrin dealltwriaeth gyffredin o'r disgrifiadau lefel
- paratoi ar gyfer llunio barn ar ddiwedd y cyfnod allweddol
- datblygu eich proffiliau dysgwr eich hun
- cynorthwyo'r gwaith pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3.

Mae'r disgrifiadau lefel wedi'u cynnwys ar daflen gyda'r llyfryn hwn fel bod modd cyfeirio atyn nhw'n hawdd.

Mae CD-ROM wedi ei ddarparu gyda'r llyfryn hwn hefyd. Mae'n cynnwys fersiwn PDF o *Hanes yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* a'r canllawiau hyn.

Mae'r canllawiau hyn yn rhan o gyfres o ddeunyddiau a fydd yn helpu athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 i roi'r cwricwlwm diwygiedig a'i drefniadau asesu cysylltiedig ar waith. Mae'r gyfres yn cynnwys:

- *Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig* – canllawiau cyffredinol ar roi'r cwricwlwm newydd ar waith
- *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* – sy'n cynnwys arweiniad ynghylch dilyniant mewn sgiliau
- *Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3*
- *Cwricwlwm i bob dysgwr: Canllawiau i gynorthwyo athrawon dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol*
- canllawiau penodol ar gyfer pob un o bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol, addysg bersonol a chymdeithasol, gyrfaoedd a'r byd gwaith, ac addysg grefyddol.

Adran

1

Negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu mewn hanes

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar eich helpu chi i gynllunio ar gyfer addysgu'r rhaglenni astudio diwygiedig fel eu bod yn berthnasol ac yn ysgogol i bob dysgwr, hynny yw canolbwyntio ar y dysgwr. Dylech chi gynllunio i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu sgiliau trwy amrywiaeth eang o gyd-destunau hanesyddol, a nodir o dan y pennawd Ystod. Dylech chi ddefnyddio Sgiliau ac Ystod fel fframwaith hyblyg i ddewis cyd-destunau ac i ddatblygu gweithgareddau, a fydd yn berthnasol ac yn ysgogol i'r dysgwyr.

Datblygu ffocws ar Sgiliau

Mae'r rhaglenni astudio diwygiedig yn cynnig ffocws ar ddysgu sgiliau i ddysgwyr ac athrawon, sydd wedi'i blethu drwy bob rhaglen astudio ac sy'n cysylltu â'r *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol ac â'r sgiliau hanesyddol eu hunain.

Mae'r diwygiadau i'r rhaglen astudio mewn hanes yn cynnig:

- cyfleoedd i fabwysiadu dull ymchwiliol, sy'n gwneud ymholi annibynnol yn ganolog i ddysgu ac addysgu
- parhad a dilyniant o 3–14, gan ystyried *Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru y Cyfnod Sylfaen* (yn arbennig Maes Dysgu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd)
- hyblygrwydd wrth ddewis cyd-destunau priodol a pherthnasol lle y gellir datblygu sgiliau
- cyfleoedd i gysylltu â phynciau eraill megis daearyddiaeth, TGCh, mathemateg, cerddoriaeth, addysg grefyddol, Cymraeg a Saesneg, yn ogystal ag ABCh.

Dylai eich cynllun gwaith sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddatblygu, ymarfer a defnyddio'r pum sgil bwnc-benodol a nodwyd yn y rhaglen astudio ar gyfer hanes. Dylai cynnydd o ran Ymwybyddiaeth gronolegol, Gwybodaeth a dealltwriaeth hanesyddol, Dehongliadau o hanes, Ymholi hanesyddol a Threfnu a chyfathrebu strwythuro eich gwaith cynllunio, fel bod eich disgyblion yn medru datblygu sgiliau gydol oes drwy brofiad perthnasol a realistig o hanes.

Byddai cwestiynau defnyddiol i lywio eich gwaith cynllunio a datblygu ffocws ar sgiliau yn cynnwys:

- Ar ba sgil(sgiliau) hanesyddol o'r rhaglen astudio mae'r gweithgaredd hwn yn canolbwyntio?
- Beth yw diben y gweithgaredd hwn? A yw'n cyflwyno sgil newydd, yn atgyfnerthu sgil neu'n defnyddio ac yn ymestyn sgil?
- Ydw i wedi cynllunio dilyniannau o weithgareddau sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau hyn?

Mae cynllun gwaith yn fwy tebygol o ategu'r broses o ddatblygu amrywiaeth o sgiliau os yw'n cynnig cyfleoedd i ddysgwyr:

- weithio'n ymarferol, adeiladu ar brofiad personol ac ymchwilio'n rhagweithiol
- gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau – yn unigol, mewn parau neu grwpiau, yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored yn yr ysgol a'r ardal o'i hamgylch, mewn lleoliadau eraill megis amgueddfeydd a safleoedd hanesyddol
- defnyddio amrywiaeth eang o ffynonellau hanesyddol, ac o gynrychiolaethau a dehongliadau
- defnyddio sgiliau meddwl i gynllunio, datblygu a myfyrio ar eu hymchwiliadau, ac i feddwl yn feirniadol ac yn greadigol am eu hanes
- defnyddio amrywiaeth o sgiliau trefnu a chyfathrebu.

Engbreiffiau o weithgareddau sy'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau hanesyddol

• Cynnwys y dysgwyr yn y broses o ddatblygu llinell amser i'r dosbarth

Dylai llinell amser yn y dosbarth fod yn rhan barhaol o arddangosfa'r dosbarth, fel y gellir cyfeirio ati'n hawdd. Mae'n ategu'r broses o ddatblygu sgiliau hanesyddol yn fwyaf effeithiol pan fydd y dysgwyr yn cymryd rhan yn y broses o ddewis y dyddiadau a'r delweddau sydd i'w cynnwys. Gall dysgwyr drafod y delweddau a'r dyfyniadau sydd, yn eu barn nhw, yn nodweddu orau y cyfnodau a'r pynciau maen nhw'n ymchwilio iddyn nhw. Wrth i'r llinell amser ddatblygu, gallen nhw ddechrau nodi newidiadau, a gwneud cysylltiadau â chyfnodau cynharach neu ddiweddarach. Gellir cyfoethogi'r fath llinell amser ymhellach drwy ddefnyddio dilyniant o arteffactau neu bethau cofiadwy fel rhan o arddangosfa'r dosbarth. Er bod pob llinell amser yn helpu i ddatblygu sgiliau rhif megis cyfrifo ac amcangyfrif, sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth gronolegol, gallen nhw hefyd helpu i ddatblygu dealltwriaeth o nodweddion cymdeithasau'r gorffennol ac o gyffelybiaethau a gwahaniaethau rhwng y cyfnodau sy'n cael eu hastudio.

- **Paratoi llinell amser unigol**

Gellir hefyd roi cyfleoedd i ddysgwyr baratoi eu llinellau amser eu hunain, fydd yn adlewyrchu eu gwybodaeth am bobl, digwyddiadau a newidiadau yn y gorffennol, a'r themâu a'r pynciau hynny sydd o ddiddordeb arbennig iddyn nhw. Mae'n well paratoi llinell amser unigol ar ddechrau cyfnod allweddol, a'i defnyddio a'i datblygu yn ystod y cyfnod allweddol. Dylai ddangos y rhychwant amser y bwriedir ei astudio drwy gydol y cyfnod allweddol, a gall ffurfio rhan o ffeil personol dysgwr mewn hanes. Pan fyddan nhw wedi cwblhau pob ymchwiliad, gall dysgwyr ddewis y delweddau sydd fwyaf nodweddiadol o'r cyfnod yn eu barn nhw, a'u cynnwys ar eu llinellau amser. Bydd angen cynorthwyo rhai dysgwyr i ddatblygu eu llinellau amser unigol eu hunain.

- **Gwneud cysylltiadau priodol ar draws y cyfnodau a'r pynciau sy'n cael eu hastudio**

Yng Nghyfnod Allweddol 2, dylid cymharu bywydau pob dydd pobl yn yr amrywiaeth o gyd-destunau yr ymchwiliir iddyn nhw. Yn ystod Cyfnod Allweddol 3, dylid gwneud cysylltiadau â'r cyfnodau a'r pynciau yr ymchwiliwyd iddyn nhw yn ystod Cyfnod Allweddol 2. Gellir manteisio ar y cyfle, hefyd, ar ddiwedd pob ymchwiliad i fyfrio ar y cysylltiadau rhwng y pwnc hwnnw a phynciau blaenorol yr ymchwiliwyd iddyn nhw. Mae defnyddio llinell amser a'r cwestiynau allweddol yn y Gorchymyn hanes yn darparu cyfleoedd i strwythuro'r cysylltiadau hyn, sydd hefyd yn ategu'r broses o ddatblygu sgiliau meddwl.


- **Defnyddio mapiau o Brydain, Ewrop a'r byd**

Dylai'r rhain adlewyrchu digwyddiadau, newidiadau a datblygiadau mewn cyd-destunau ehangach na Chymru a Lloegr, a chynorthwyo dysgwyr i ymchwilio i'r cysylltiadau rhwng gwahanol rannau o'r byd yn y gwahanol gyfnodau sy'n cael eu hastudio.

- **Defnyddio amrywiaeth o ddehongliadau a chynrychiolaethau gwahanol**

Yng Nghyfnod Allweddol 2 dylai'r rhain ymwneud â bywyd pob dydd yn ystod y cyfnod sy'n cael ei astudio, a dylid canolbwyntio ar gynrychiolaethau o'r gorffennol. Er enghraifft, gellid defnyddio gwahanol ddelweddau a disgrifiadau o dai yn y cyfnod penodol hwnnw, a gymerwyd o werslyfrau, ffuglen, safleoedd hanesyddol ac amgueddfeydd, papurau newydd, ffilm a theledu, gan nodi'r cyffelybiaethau a'r gwahaniaethau, ac ymchwilio i rywfaint o'r dystiolaeth gyfoes o'r rhain. Dylai dysgwyr gael amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu eu dealltwriaeth bod y gorffennol wedi ei gynrychioli mewn gwahanol ffyrdd, ond bod y rhain wedi eu seilio ar dystiolaeth o'r cyfnod hwnnw. Yn ystod pob ymchwiliad, dylai disgyblion gael cyfle i glywed haneswyr lleol yn siarad am y pwnc, edrych ar lyfrau addas amdano, ymweld ag amgueddfa sydd ag arddangosfeydd perthnasol i'r cyfnod, neu wylio DVD neu raglen deledu ar y pwnc. Dylen nhw gael y cyfle i ddefnyddio rhai o leiaf o'r ffynonellau sy'n sail i'r cynrychiolaethau dan sylw, gan gynnwys ffotograffau a delweddau eraill o'r cyfnod, mapiau, canlyniadau censiws, cyfeiriaduron masnach, ac ati. Dylid eu cynorthwyo i wneud cysylltiadau rhwng y dystiolaeth gyfoes a'r cynrychiolaethau diweddarach, ac i feddwl sut y defnyddiwyd y dystiolaeth hon yn y cynrychiolaethau dan sylw.

Adluniad gan arlunydd –
o *Deunyddiau Asesu*
Dewisol ar gyfer *Hanes*
Cyfnod Allweddol 2
(ACCAC, 2002).



Gallen nhw wedyn wneud eu cynrychiolaethau eu hunain, gan eu labelu i ddangos pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd ganddyn nhw i'w creu. Bydd trafod y gwahaniaethau dros eu gwahanol gynrychiolaethau, a'r rhesymau dros y gwahaniaethau, yn gyfle i ddatblygu dealltwriaeth y dysgwyr o'r agwedd bwysig hon ar hanes.

Yng Nghyfnod Allweddol 3 dylai'r un gweithgaredd ganolbwyntio ar y digwyddiadau, y bobl a'r newidiadau dros amser yr ymchwilir iddyn nhw, gan adeiladu ar y sgiliau a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yng Nghyfnod Allweddol 2. Dylai hefyd gynnwys dehongliadau a chynrychiolaethau ysgrifenedig neu glyweledol mwy ymestynnol, a chynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r rhesymau pam mae digwyddiadau, pobl a newidiadau wedi'u dehongli mewn ffyrdd gwahanol. Yng Nghyfnod Allweddol 3, dylech gynorthwyo'r dysgwyr i wahaniaethu rhwng safbwyntiau cyfoes a dehongliadau hanesyddol. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio rhaglenni teledu neu ffilmiau megis cyfres *Blackadder*, *Titanic* neu *Hedd Wyn* yn effeithiol iawn i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr, ond dylech gofio bod rhaglenni dogfen a gwerslyfrau ysgol yn ddehongliadau hefyd. Seilir dehongliadau ar astudiaeth o ffynonellau cyfoes a rhai mwy diweddar, a hefyd ar fyfyrdd ystyrlon. Mae dehongliadau hanesyddol go iawn yn seiliedig ar astudiaeth. Yng Nghyfnod Allweddol 3, yn ogystal â defnyddio rhai ffynonellau cyfoes fel rhan o'u hymchwiliad i bwnc, dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ystyried dehongliadau diweddarach. Wrth ymchwilio i effaith y Rhyfel Byd Cyntaf, er enghraifft, bydd y gwerslyfrau, llyfrau cyfeiriol, nofelau a gwefannau a ddefnyddir, a'r ffilmiau a'r rhaglenni teledu a wylir i gyd yn cynnig nifer o ddehongliadau. Yn yr un modd, bydd gwahanol ddehongliadau i'w cael yn arddangosfeydd amgueddfeydd megis yr Amgueddfa Ryfel Ymerodrol a safleoedd y brwydrau eu hunain. Gellir ymchwilio i ffynonellau cyfoes megis barddoniaeth, llythyrau, cardiau post a dyddiaduron, adroddiadau papurau newydd a llygad-dystion, ffotograffau a ffilmiau newyddion, er mwyn canfod sut a pham y'u defnyddiwyd i greu'r dehongliadau dan sylw. Yng Nghyfnod Allweddol 3, bydd dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o sut a pham mae gwahanol ddehongliadau hanesyddol wedi'u cynhyrchu: ni ddylech ddisgwyl iddyn nhw ddechrau gwerthuso dehongliadau nes iddyn nhw ddechrau gweithio ar Lefel 8.

- **Defnyddio amrywiaeth eang o ffynonellau**

Mae defnyddio amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys arteffactau, ffotograffau, adeiladau, safleoedd, cerddoriaeth ac adroddiadau llafar yn orfodol yng Nghyfnod Allweddol 3, ac yn ddymunol yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae ffynonellau gweledol, clywedol a chyffyrddol yn cyfoethogi profiad dysgwyr o hanes. Maen nhw hefyd yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwahanol yn feirniadol, gan ddechrau trwy gymharu a chyferbynnu'r dystiolaeth a ddarperir a nodi'r ffynonellau sydd fwyaf defnyddiol i ateb ymholiadau penodol. Mae defnyddio amrywiaeth eang o ffynonellau yn cynorthwyo dysgwyr i werthuso a dewis gwybodaeth i ategu eu hadroddiadau a'u dadleuon. Gall y fath ffynonellau gynnwys ystadegau a gwybodaeth rifiadol arall, gan ganiatáu i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau cyfrifo ac amcangyfrif mewn cyd-destun hanesyddol. Mae'r rhyngwyd yn offeryn ymchwil gwerthfawr, ond mae'r adnoddau sydd ar gael i ysgolion hefyd yn cynnwys eu cymunedau eu hunain a'u hamgylchedd. Dylid achub bob cyfle i wneud cysylltiadau rhwng y pwnc yr ymchwilir iddo a phrofiadau a diddordebau'r dysgwyr eu hunain. Dylai'r cysylltiadau hyn gael eu cynllunio a dylen nhw fod yn rhan gydlynol o'r dysgu.

Mae'r pwyslais yn y Gorchymyn newydd ar ddysgu trwy ymchwilio yn gyfle i adolygu'r elfen o ymholi hanesyddol mewn cynlluniau dysgu ac addysgu. Dylech wneud hyn yng nghyd-destun disgwyliadau'r disgrifiadau lefel. Yng Nghyfnod Allweddol 2, dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ddefnyddio ffynonellau hanesyddol wrth ofyn ac ateb cwestiynau, a dylech eu hannog i gynnig dulliau o ddod o hyd i atebion i gwestiynau penodol trwy ddefnyddio ffynonellau. Gallech ddefnyddio ffynonellau mwy heriol yng Nghyfnod Allweddol 3, ac o Lefel 5 ymlaen dylai dysgwyr gael cyfleoedd i werthuso'r ffynonellau a ddefnyddir, a llwyddiant eu hymchwiliadau. Dylai'r pwyslais fod ar yr ymchwiliadau eu hunain, a'r dulliau ymholi a ddefnyddir, gan roi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau meddwl a'u strategaethau. Tra bod gan ymarferion ar werthuso dilysrwydd a dibynadwyedd ffynonellau eu lle mewn datblygu sgiliau dysgwyr wrth ddefnyddio ffynonellau, nid ydyn nhw yn eu hunain yn golygu ymchwiliad hanesyddol gwirioneddol.

- **Ymgorffori ymweliadau yn y cynllun gwaith**

Mae ymweliadau ag amgueddfeydd a safleoedd hanesyddol yn rhan bwysig o'r gwaith a wneir mewn hanes yn y ddau gyfnod allweddol, a dylid eu cysylltu lle bynnag y bo modd ag ardal a phrofiad y dysgwyr eu hunain. Er enghraifft, gellir gwneud ymchwiliadau i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif yn y ddau gyfnod allweddol yn fwy perthnasol i ddysgwyr drwy ddefnyddio safleoedd ac adeiladau lleol sy'n dyddio o'r cyfnodau hynny. Mae enwau lleoedd, enwau strydoedd, adeiladau a chofebau yn aml yn adlewyrchu digwyddiadau a phobl bwysig yn y gorffennol ac yn darparu cliwiau i'w defnyddio mewn ymchwiliad. Yn yr un modd, mae gwaith gyda'r gymuned yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso ac ymestyn eu sgiliau ymchwiliol y tu allan i'r ystafell ddosbarth a mynd i'r afael ag amrywiaeth o ffynonellau hanesyddol. Gall y fath waith gynnwys gwahodd aelodau o'r gymuned i ddod i mewn i'r ysgol i rannu eu hatgofion am ddigwyddiadau pwysig yn yr ugeinfed ganrif â dysgwyr, neu greu arddangosfa neu amgueddfa yn yr ystafell ddosbarth sy'n cynnwys pethau cofiadwy, dogfennau a ffotograffau sy'n berthnasol i'r pwnc yr ymchwilir iddo. Gall astudiaeth leol ffurfio craidd neu fan cychwyn ymchwiliad, neu gall fod yn rhan o ymarfer gwerthuso ar ddiwedd ymchwiliad.

Enghreifftiau o weithgareddau sydd ond yn cynnig cyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu sgiliau a/neu ddealltwriaeth ac mae'n well eu hosgoi

- Copïo lluniau neu destun heb orfod addasu na defnyddio'r wybodaeth.
- Tynnu lluniau neu 'liwio' delweddau nad ydyn nhw'n datblygu sgîl na dealltwriaeth hanesyddol.
- Ymchwilio ar y rhyngwrdd, lawrlwytho, torri a gludo heb orfod dewis a defnyddio deunydd i ymchwilio i gwestiwn hanesyddol.
- Llunio posteri neu bamffledi sydd â deilliannau dysgu cyfyngedig i sgiliau cyflwyniadol.
- Darparu rhwystrau sy'n atal dysgwyr rhag meddwl yn hanesyddol, er enghraifft gweithgareddau sy'n seiliedig ar gysyniadau anacronistig megis adroddiadau papur newydd o ddigwyddiadau yn yr Oesoedd Canol.
- Ymchwilio i bynciau ar wahân, er enghraifft testun sydd ond yn ymwneud â hanes Lloegr (neu Gymru a Lloegr hyd yn oed) heb sicrhau bod hyn yn berthnasol i'r dysgwr drwy wneud cysylltiadau â phrofiad, gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr ac â hanes Cymru a hanes ehangach Prydain. Mae ymchwiliadau i deyrnasiad Edward I, y Diwygiad Protestanaidd a thwff diwydiant yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn darparu cyfleoedd gwych i wneud y cysylltiadau ehangach hyn. Yng Nghyfnod Allweddol 3, dylid gosod yr ymchwiliadau hyn, pan fo hynny'n berthnasol, yng nghyd-destun Ewrop neu'r byd ehangach.

Gweithredu'r Ystod

Dylai'r cyd-destunau a ddewisir ar gyfer eich cynllun gwaith gynnwys, o leiaf, y rhai a restrir o dan y pennawd Ystod, a gynlluniwyd i sicrhau bod eich cynllun yn gytbwys ac yn eang ei gwmpas, ac adeiladu ar yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yn y Cyfnod Sylfaen neu yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae'r adrannau canlynol yn cynnig canllawiau ychwanegol ar elfennau o'r Ystod, gan gynnwys y rhai sy'n newydd i'r rhaglen astudio ddiwygiedig ar gyfer hanes.

Cyd-destunau hanesyddol

Gellir defnyddio'r cyd-destunau fel fframwaith hyblyg ar gyfer archwilio pynciau hanesyddol perthnasol sydd o ddiddordeb i ddysgwyr. Nid oes angen, o reidrwydd, dreulio'r un amser yn astudio pob pwnc, a dylen nhw fod yn berthnasol i leoliad yr ysgol ac i fyd yr unfed ganrif ar hugain. Gallwch chi ddewis ymchwilio i rai cyd-destunau yn fanwl, tra'n dilyn thema datblygiadol ehangach mewn eraill.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, er enghraifft, caiff ysgolion mewn maestrefi a ddatblygwyd yn ddiweddar neu, i raddau llai, mewn ystadau tai a adeiladwyd yn yr 1960au neu'n hwyrach, gyfleoedd mwy cyfyngedig i wneud cysylltiadau rhwng yr ardal sy'n gyfarwydd i'r dysgwyr a'r gorffennol pell. Efallai y bydd yr ysgolion hyn am ddatblygu cynlluniau gwaith sy'n canolbwyntio'n ddyfnach ar y gorffennol o fewn cof. Neu, os ydych chi'n dysgu mewn ysgol a leolir gerllaw adeilad hanesyddol pwysig, megis safle sy'n dyddio o'r Oes Haearn neu'r cyfnod Rhufeinig, castell canoloesol neu dŷ sy'n dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg, gallwch chi ddewis ymchwilio'n fanwl i'r math o fywyd oedd gan bobl yn ystod y cyfnod pan gafodd ei godi gyntaf, yn ogystal â'r gwahanol ddefnydd a wnaed ohono dros y canrifoedd.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, gall ymchwiliadau i rai o unigolion a digwyddiadau'r ugeinfed ganrif sydd wedi cyfrannu at greu'r byd newid i adlewyrchu digwyddiadau a datblygiadau cyfredol, cyfresi teledu a ffilmiau.

Yn y ddau gyfnod allweddol, gall penblwyddi digwyddiadau arwyddocaol a seremonïau coffa ddarparu ffocws i ymchwiliad.

Ymholi ac ymchwiliadau hanesyddol

Mae'r Gorchymyn diwygiedig ar gyfer hanes yn rhoi lle canolog i ymholi hanesyddol mewn dysgu ac addysgu. Dylid cynllunio gweithgareddau ar draws y cyfnodau allweddol er mwyn datblygu sgiliau ymholi hanesyddol dysgwyr. Bwriedir i'r cwestiynau allweddol sy'n rhan statudol o'r Gorchymyn ar gyfer y ddau gyfnod allweddol eich helpu i strwythuro ymchwiliadau a fydd yn datblygu'r sgiliau ymholi hyn. Bydd ymagweddau a phynciau sy'n berthnasol i ddysgwyr ac yn ennyn eu diddordeb yn eu hysgogi i fwrw ymlaen â'u hymchwiliadau. Mae'r fath ymchwiliadau yn cynnig cyfleoedd ar gyfer profiad ymholi go iawn lle mae dysgwyr yn datblygu eu cwestiynau arwyddocaol eu hunain, yn cynllunio eu hymchwiliad, yn canfod ac yn gwerthuso eu hatebion eu hunain, ac yn myfyrio ar lwyddiant neu ddiffyg llwyddiant y cwestiynau a ddewiswyd cyn mireinio y cwestiynau, myfyrio eu canfyddiadau a chyflwyno eu casgliadau. Maen nhw'n ategu'r broses o ddatblygu sgiliau meddwl yn ogystal â meithrin gwell dealltwriaeth o'r broses ymholi hanesyddol ei hun.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, dylid cynorthwyo ac annog dysgwyr i fabwysiadu dull ymchwiliol, gan roi cyfleoedd iddyn nhw ofyn cwestiynau, awgrymu sut i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol a gwerthuso eu canfyddiadau. Dylech chi sicrhau eu bod nhw'n cael cyfleoedd drwy'r cyfnod allweddol i wneud cynnydd o ran sgiliau ymholi hanesyddol, gan ddatblygu dilyniannau o gwestiynau a chydabod y rhai mwyaf defnyddiol i ateb ymholiadau penodol, yn ogystal â chynllunio dulliau ymchwiliol sy'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd eisoes.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, dylai dysgwyr gael cyfleoedd i gyflawni ymchwiliadau gan ddefnyddio'r cwestiynau mwy cymhleth sydd yn y rhaglen astudio. Nid oes angen i'r fath ymchwiliadau fod yn ddarnau mawr iawn o waith, a dylid sicrhau nad ydyn nhw'n datblygu'n brosiectau disgrifiadol hir a digynllun. Yn lle hynny dylen nhw gynnig cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer pob un o gamau ymholi hanesyddol a mynd i'r afael â nhw, yn arbennig y rhai sy'n gofyn am waith dadansoddi, dysgu a gwerthuso, yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi. Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ddod yn fwy annibynnol, gan ddatblygu'r sgiliau dadansoddi a gwerthuso sy'n ganolog i ymholi hanesyddol. Yn ystod y cyfnod allweddol, dylai dysgwyr gyflawni o leiaf un ymchwiliad grŵp cyflawn ac un ymchwiliad annibynnol, a dylai'r rhain fod yn ddigon ymestynnol i'w hannog i symud ymlaen tuag at gymwysterau ôl-16.

Gofyn ac ateb cwestiynau

Mae pob rhaglen astudio yn darparu rhestr o gwestiynau allweddol sydd wrth wraidd dysgu mewn hanes. Maen nhw'n generig i bob cyd-destun a gellir eu defnyddio i helpu dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau hanesyddol, yn ogystal â strwythuro'r gwaith o ymchwilio i'r cyd-destun hanesyddol. Yn y ddau gyfnod allweddol mae'r cwestiwn cyntaf yn cysylltu'n uniongyrchol â'r broses gynllunio sy'n ganolog i sgiliau meddwl yn ogystal â phrosesau ymholi hanesyddol. Mae'r cwestiynau sy'n dilyn yn darparu cyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau hanesyddol yn y cyd-destun sy'n cael ei astudio, ond maen nhw hefyd yn cysylltu â'r prosesau datblygu a myfyrio sy'n ganolog i'r ymagwedd sgiliau meddwl.

Llinellau amser

Yn ogystal ag ategu'r broses o ddatblygu ymwybyddiaeth gronolegol a'r fframwaith cysyniadol sydd wrth wraidd gwybodaeth a dealltwriaeth hanesyddol, mae defnyddio amrywiaeth o linellau amser yn darparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau rhif a gwneud cysylltiadau trawsgwricwlaidd â mathemateg, Cymraeg, Saesneg, celf, cerddoriaeth, gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mapiau

Mae defnyddio mapiau yn darparu cyd-destun daearyddol ar gyfer y pwnc hanesyddol sy'n cael ei astudio, ac yn hyrwyddo cysylltiadau â newidiadau a datblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o Gymru, Ynysoedd Prydain, Ewrop a'r byd fel y bo'n briodol. Er enghraifft, gellir gosod goresgyniadau Edward I yng Nghymru yng nghyd-destun ei deyrnas ehangach, neu, wrth ganolbwyntio ar gyfnod diweddarach, gellir nodi tarddiad y Diwygiad Protestannaidd yn Ewrop. Mae defnyddio mapiau yn hyrwyddo dealltwriaeth sy'n datblygu o ddinasyddiaeth fyd-eang ac yn darparu cyfleoedd i wneud cysylltiadau trawsgwricwlaidd â daearyddiaeth.

Ystod o ffynonellau, gan gynnwys dehongliadau

Mae defnyddio ystod eang o ffynonellau yn darparu cyfleoedd i wneud cysylltiadau trawsgwricwlaidd ystyrlon â phynciau eraill gan gynnwys Cymraeg, Saesneg, celf, dylunio a thechnoleg, mathemateg a cherddoriaeth.

Hanes a sgiliau ar draws y cwricwlwm

Mae *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif i ddysgwyr 3 i 19 oed.

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y sgiliau maen nhw wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r dysgwyr barhau i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd yn nhermau mireinio'r sgiliau hyn a thrwy eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; o'r syml i'r cymhleth; o'r personol i'r 'darlun mawr'; o'r cyfarwydd i'r anghyfarwydd; ac o'r dibynnol i'r annibynnol a'r cyd-ddibynnol.

Defnyddiwyd eiconau yn y Gorchymyn hanes i ddangos gofynion penodol ar gyfer datblygu sgiliau a dysgu ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, wrth gynllunio cynllun gwaith sy'n berthnasol i ddysgwyr, byddwch chi'n adnabod cyfleoedd eraill sy'n cyfoethogi dysgu.

Datblygu meddwl



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio**, **datblygu** a **myfyrio**.

Mewn hanes, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau meddwl trwy ymholi hanesyddol a thrwy myfyrio ar gwestiynau allweddol, syniadau a dehongliadau.

Yn y proffiliau dysgwyr sy'n dilyn, caiff dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 2 eu cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau meddwl yng nghyd-destun ymchwiliad i hanes eu cymdogaeth eu hunain¹ (Katie a Sara Lois), ond gellir hefyd gynnal ymchwiliadau i gyfnodau megis y 1940au a'r 1960au sy'n gyfarwydd i bobl maen nhw'n eu hadnabod. Maen nhw'n cael cyfleoedd i gynllunio a datblygu'r ymchwiliadau hyn, myfyrio ynghylch y newidiadau ym mywydau pobl, a dechrau meddwl am y rhesymau drostyn nhw.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, maen nhw'n ymchwilio i hanes cyfnodau a chyd-destunau mwy anghyfarwydd (er enghraifft, y cefndir gwleidyddol i fudiad y bleidlais i ferched yng ngwaith Mari) gan weithio'n fwy annibynnol (yng ngwaith Mari ar Aberfan).

¹ Gellir disgrifio dalgylch yr ysgol fel y gymdogaeth, ond yn ei hystyr ehangach gall y gymdogaeth hefyd gyfeirio at yr ardal mae'r dysgwyr yn gyfarwydd â hi, lle y bydd enwau lleoedd, adeiladau a thirnodau yn gyfarwydd iddyn nhw. Gallai gynnwys y dref fawr agosaf, er enghraifft, ond dylai bob amser fod yn ardal a fydd yn gyfarwydd ac yn berthnasol i'r dysgwyr neu'n ardal y bydd pob dysgwr yn gallu ymgyswngi â hi yn gyflym ac yn hawdd.

Datblygu cyfathrebu



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd, darllen, ysgrifennu** a **chyfathrebu ehangach**.

Mewn hanes, bydd y dysgwyr yn datblygu y sgiliau hyn trwy ddefnyddio ffynonellau clywedol ac ysgrifenedig a chyflwyno syniadau, safbwyntiau, dadleuon a chasgliadau.

Yn y proffiliau dysgwyr sy'n dilyn, mae'r dysgwyr wedi cael cyfleoedd i drafod eu hymchwiliadau a'u canfyddiadau mewn trafodaethau dosbarth a grŵp ac mewn parau. Maen nhw i gyd wedi darllen amrywiaeth o ffynonellau ysgrifenedig priodol, wedi cymharu'r rhain â ffynonellau gweledol, ac, mewn rhai achosion, glywedol, i ategu eu hymchwiliadau ym mhob cyfnod allweddol ac mae'r dysgwyr wedi cyfleu eu canfyddiadau mewn ffyrdd gwahanol.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae Katie wedi ymchwilio i'r newidiadau a fu yn ei chymuned ei hunan yn ystod y ganrif ddiwethaf, drwy ddefnyddio dogfennau wedi'u haddasu o'r cyfnod yn ogystal â darllen llyfrau sy'n briodol i'w hoedran a'i galluoedd.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, mae Anwen hefyd wedi ymchwilio i hanes yn yr un cyfnod, ond mewn cyd-destun byd eang, ac roedd hi'n defnyddio detholiadau o ddogfennau gwreiddiol heb eu haddasu.

Mae'r dysgwyr yn cyfleu eu casgliadau drwy ddarnau o waith ysgrifenedig sy'n mynd yn hirach ac yn fwy cymhleth, gan gynnwys gwahanol arddulliau o ysgrifennu ffeithiol. Maen nhw hefyd yn cyfleu eu syniadau, eu barn, eu dadleuon a'u casgliadau drwy fapiau meddwl a diagramau yn ogystal â gweithgareddau chwarae rôl a thrafod.

Datblygu TGCh



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Mewn hanes, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh trwy ddefnyddio technoleg mewn ymholiadau, a thrwy datblygu a chyflwyno eu canfyddiadau.

Yn y proffiliau dysgwyr sy'n dilyn, mae'r dysgwyr yn y ddau gyfnod allweddol wedi defnyddio'r rhynggrwyd fel rhan o'u hymchwiliadau. Er enghraifft, mae Katie (Cyfnod Allweddol 2) yn defnyddio cymwysiadau TGCh syml i gyflwyno ei chanfyddiadau.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, mae cyflwyniadau PowerPoint Anwen yn dangos sut gall dysgwyr ddefnyddio TGCh yn effeithiol i ddod o hyd i ddeunydd sy'n berthnasol i'w hymchwiliadau a'i ddatblygu a chreu cyflwyniadau.

Datblygu sgiliau rhif



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau**.

Mewn hanes, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif trwy ddatblygu ymwybyddiaeth gronolegol, defnyddio confensiynau yn ymwneud ag amser, a defnyddio data, e.e. *canlyniadau cyfrifiadau ac ystadegau*.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, yn ogystal â Chyfnod Allweddol 3, mae'r dysgwyr yn defnyddio'r wybodaeth fathemategol a geir mewn canlyniadau'r cyfrifiad ac ystadegau fel rhan o'u hymchwiliadau. Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y rhain yn ymwneud â chymdogaeth y dysgwyr, ac mae gwaith Katie ar ddata sy'n seiliedig ar ganlyniadau censws (Gweithgareddau 1 a 2) yn dangos sut gall dysgwyr wneud rhai cyfrifiadau a dehongliadau hanesyddol perthnasol ar sail y fath wybodaeth. Dewisodd Katie gyflwyno ei chanfyddiadau ar ffurf graff ac mae hyn yn dangos sut gellir defnyddio sgiliau rhif i hyrwyddo dealltwriaeth hanesyddol. Mae'r dysgwyr yn y ddau gyfnod allweddol yn defnyddio sgiliau rhif i hyrwyddo eu hymwybyddiaeth gronolegol gynyddol, gan ddefnyddio dyddiadau a chonfensiynau eraill sy'n ymwneud ag amser yn fwyfwy manwl gywir. Rhydd gwaith Anwen ar y newid yng Nghymru rhwng 1760 a 1914 gyfle iddi hi wneud hyn.

Hanes a dysgu ar draws y cwricwlwm

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen, a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiad personol a chymdeithasol a'u lles, a'u hymwybyddiaeth o'r byd gwaith.

Y Cwricwlwm Cymreig



Dylai dysgwyr 7–14 oed gael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

Bydd hanes yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy wneud hanes lleol a hanes Cymru yn ffocws yr astudiaeth a chynorthwyo dysgwyr i ddeall y ffactorau sydd wedi llunio Cymru a gwledydd eraill heddiw.

Mae'r proffiliau dysgwyr sy'n dilyn wedi eu dewis er mwyn dangos sut gellir defnyddio hanes lleol a hanes Cymru fel man cychwyn ymchwiliadau. Hanes lleol yw ffocws y rhan fwyaf o'r gweithgareddau yng Nghyfnod Allweddol 2, ond mae'r rhain hefyd yn helpu i egluro hanes ehangach Cymru. Mae newidiadau mewn diwydiannau lleol ar Ynys Môn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Sara Lois), a'r newidiadau mewn poblogaeth yn Sir Gaerfyrddin yn yr ugeinfed ganrif (Katie) i gyd yn adlewyrchu newidiadau ehangach a effeithiodd ar Gymru, ac maen nhw'n darparu'r sail ar gyfer datblygu dealltwriaeth gadarn yng Nghyfnod Allweddol 3 o'r prosesau sydd wedi ffurfio'r unfed ganrif ar hugain.

Yng Nghyfnod Allweddol 3 wedyn, rhydd ymchwiliad Mari i lwyddiant yr ymgyrch i ennill y bleidlais i fenywod gyfle i ystyried y rhesymau economaidd a gwleidyddol drosto yng Nghymru a thu hwnt, tra bod ymchwiliad Mari i drychineb Aberfan yn gyfle i fyfyrwyr ar ddigwyddiad yng Nghymru a effeithiodd ar y byd cyfan.

Addysg bersonol a chymdeithasol



Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles emosiynol a'u datblygiad moesol ac ysbrydol; fod yn ddinasyddion gweithgar a hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; a pharatoi ar gyfer dysgu gydol oes.

Bydd hanes yn cyfrannu at addysg bersonol a chymdeithasol y dysgwyr trwy ddatblygu eu sgiliau ymholi a meddwl yn feirniadol; eu dealltwriaeth o wahanol safbwyntiau a dehongliadau o bobl a digwyddiadau; ac o'r modd y mae pobl wedi effeithio ar eu hamgylchedd yn y gorffennol. Mae'n rhoi cyd-destun hanesyddol i fywydau'r dysgwyr.

Yn y proffiliau dysgwyr sy'n dilyn, mae'r dysgwyr yn y ddau gyfnod allweddol yn ymchwilio i bynciau hanesyddol sy'n ategu'r themâu hyn. Er enghraifft, yng Nghyfnod Allweddol 2, mae Sara Lois yn cael cyfle i ymchwilio i effaith diwydiant ar yr amgylchedd ac mae Katie yn myfyrio ynghylch y rhesymau dros newidiadau ym mhoblogaeth ei phentref ei hunan yn yr ugeinfed ganrif.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, mae ymchwiliad Mari i'r mudiad dros y bleidlais i fenywod yn rhoi cyfle iddi hi fyfyrto ynghylch pwysigrwydd dinasyddiaeth weithredol yng nghyd-destun y frwydr dros ryddfrenio menywod a'r modd y gall grwpiau pwysu ddylanwadu ar y broses wleidyddol mewn democratiaeth gynrychioliadol.

Yng Nghyfnod Allweddol 3 hefyd, mae ymchwiliad Mari i drychineb Aberfan yn ei chynorthwyo i ffurfio barn am ddatblygu cynaliadwy ac effaith diwydiant ar bobl a'u hamgylchedd.

Mae pob un o'r proffiliau yn seiliedig ar ymchwiliadau sy'n defnyddio amrywiaeth o ffynonellau, sy'n cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau ymholi a fydd yn ategu eu dysgu gydol oes, tra bod gwaith ar werthuso ffynonellau yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio gwybodaeth yn feirniadol i ddod i'w casgliadau eu hunain a'u hategu.

Gyrfaedd a'r byd gwaith



Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r maes gyrfaedd a'r byd gwaith a sut mae eu hastudiaethau'n cyfrannu at baratoi ar gyfer bywyd gwaith.

Bydd hanes yn cyfrannu at ymwybyddiaeth y dysgwyr o yrfaedd a'r byd gwaith trwy ddatblygu eu dealltwriaeth o'r ffactorau sydd wedi llunio'r byd gwaith yn y gorffennol; rhai o'r prif newidiadau economaidd, cymdeithasol a diwydiannol sydd wedi digwydd; graddfa'r newidiadau ar draws gwahanol gyfnodau ac o fewn yr un cyfnod; rhai o brif newidiadau economaidd, cymdeithasol a thechnolegol yr ugeinfed ganrif.

Mae dysgwyr hefyd yn cael cyfleoedd i wneud cysylltiadau rhwng digwyddiadau a newidiadau, a myfyrto ynghylch eu hachosion a'u canlyniadau.

Bydd hanes yn cyfrannu at eu paratoi ar gyfer bywyd gwaith trwy ddatblygu sgiliau dadansoddi tystiolaeth a dadl. Maen nhw'n dysgu sut i ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth yn feirniadol, i ganfod tuedd a rhagfarn, ac i lunio dadl neu ddehongliad o ddigwyddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Yn y proffiliau dysgwyr sy'n dilyn, mae dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 2, megis Sara Lois a Katie, yn cael eu cynorthwyo i ddeall byd gwaith drwy ymchwilio i waith yn eu cymdogaeth yn y gorffennol a'i effeithiau ar fywydau pobl a'r amgylchedd. Mae'r fath gyfleoedd dysgu yn galluogi dysgwyr i wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng cyfnodau cynharach a natur bresennol gwaith ac amodau gwaith, a myfyrio ynghylch datblygiad undebau llafur a deddfwriaeth gyflogaeth.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, mae Anwen a Mari yn defnyddio ac yn gwerthuso ffynonellau hanesyddol wrth fyfyrio ynghylch digwyddiadau a newidiadau hanesyddol, gan ddatblygu eu sgiliau wrth ddadansoddi tystiolaeth a dadleuon, ac maen nhw'n dechrau canfod tuedd a rhagfarn yn y dystiolaeth maen nhw'n ei hastudio.

Dysgu drwy hanes

Adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd eisoes

Mae cynllunio effeithiol ar gyfer dysgu ac addysgu mewn hanes yn gofyn am gydweithredu rhwng athrawon ar draws cyfnodau, a dilyniant cyson yn sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr. Ar adegau trosglwyddo allweddol, mae'n bwysig bod athrawon yn adeiladu ar ddysgu ac addysgu blaenorol wrth gynllunio'r cwricwlwm hanes. Er enghraifft, gallai gwaith ym Mlwyddyn 3 gael ei ddewis i adlewyrchu'r ymagwedd a fabwysiadwyd mewn lleoliadau partner yn y Cyfnod Sylfaen. Yn yr un modd, gallai cynnwys gwaith ym Mlwyddyn 7 a'r broses o'i amserlennu adlewyrchu'r dull gweithredu mewn ysgolion cynradd partner. Gallai natur dra hyblyg y rhaglen astudio hanes, er ei bod hi'n hwyluso gwaith cynllunio, arwain hefyd at sefyllfa lle mae dysgwyr â phrofiadau gwahanol iawn o ymchwiliadau hanes yn dod at ei gilydd, ar adegau trosglwyddo allweddol, i ddechrau rhaglen newydd. Bydd cynllunio ar y cyd yn hanfodol er mwyn sicrhau parhad a dilyniant ar gyfer dysgwyr.

Dengys gwaith Katie ar y gymdogaeth sut gall ysgolion cynradd ymgymryd ag ymchwiliadau sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer gwaith Cyfnod Allweddol 3. Mae'n rhan o uned bontio ar y gymdogaeth, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad ag ysgol uwchradd bartner yr ysgol ac ysgolion cynradd eraill yn yr un dalgylch.

Datblygu dull ymchwiliol

Mae'r Gorchymyn diwygiedig ar gyfer hanes yn rhoi lle canolog i ymholi hanesyddol mewn dysgu ac addysgu. Bydd ymagweddau a phynciau sy'n berthnasol i ddysgwyr ac yn ennyn eu diddordeb yn eu hysgogi i fwrw ymlaen â'u hymholiadau.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae ymchwiliad Sara Lois i leoliad a datblygiad diwydiannau lleol yn adlewyrchu chwilfrydedd naturiol dysgwyr ynghylch hen adeiladau yn eu cymdogaeth ac yn ei galluogi i ddod o hyd i wybodaeth am ffordd o fyw sy'n wahanol i'w heiddo ei hun.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, ysgogwyd Mari i ddilyn trywydd ymholi annibynnol gan ei hymateb personol i drychineb Aberfan.

Defnyddio'r amrywiaeth ehangaf posibl o adnoddau mewn Ymholiadau hanesyddol

Wrth gynllunio gwaith dysgu ac addysgu, dylid manteisio'n llawn ar yr amrywiaeth ehangaf posibl o adnoddau sydd ar gael, ac ar gyfleoedd i ymgymryd ag ymholiadau hanesyddol y tu allan i'r ystafell ddosbarth ei hunan.

Mae ymholiad Katie i'r newidiadau a fu yn ei chymdogaeth yn defnyddio'r ystod eang o adnoddau sydd ar gael i ysgolion a hefyd yr arteffactau, y safleoedd a'r atgofion personol sy'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r gorffennol. Gwnaeth ymholiad Mari i drychineb Aberfan ddefnydd helaeth o atgofion ei theulu ei hunan o'r digwyddiad, a oedd wedi cael cryn effaith ar ei mam-gu yn arbennig.

Datblygu ystod o sgiliau Trefnu a chyfathrebu

Yn ogystal â defnyddio amrywiaeth o ffynonellau, dylech chi roi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu mewn hanes, drwy roi cyfleoedd iddyn nhw ddatblygu eu geirfa dechnegol a'u dealltwriaeth o'r grefft o adrodd storïau a naratif a thrwy ddarparu cyfleoedd i drefnu a chyfathrebu mewn nifer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys TGCh, at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae Katie yn defnyddio TGCh i gyflwyno canfyddiadau ei hymholiad i newidiadau yn y gymdogaeth yn ystod yr ugeinfed ganrif, tra bod Anwen, yng Nghyfnod Allweddol 3, yn defnyddio TGCh i ymchwilio i argyfwng Cuba a chyflwyno canfyddiadau ei hymholiadau iddo.

Adran

2

Disgwyliadau a dilyniant mewn hanes

Yn yr adran hon, mae'r datganiadau isod o'r disgrifiadau lefel wedi'u trefnu i ddisgrifio dilyniant yn y pum sgîl ar draws yr holl wybodaeth a dealltwriaeth a ddangoswyd drwy astudio'r cyd-destunau yn yr Ystod. Dylid eu defnyddio i gynllunio cynlluniau gwaith a gweithgareddau sy'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion wneud cynnydd. Nid yw datganiadau o ddisgrifiad lefel Perfformiad Eithriadol wedi'u cynnwys yn y grwpiau hyn.

Dilyniant mewn Ymwybyddiaeth gronolegol

Dylai'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau mewn Ymwybyddiaeth gronolegol drwy adeiladu ar ddilyniannau o ddigwyddiadau a gwrthrychau cyfarwydd i ddatblygu 'map o'r gorffennol' a dealltwriaeth o gonfensiynau cronolegol.

1. Bydd y disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth rhwng y presennol a'r gorffennol yn eu bywydau eu hunain ac ym mywydau pobl eraill, yn gosod ychydig o ddigwyddiadau a gwrthrychau mewn dilyniant, ac yn defnyddio termau bob dydd am dreigl amser.
2. Byddant yn gwahaniaethu rhwng agweddau ar eu bywydau eu hunain ac adegau yn y gorffennol, yn defnyddio termau sy'n gysylltiedig â threigl amser ac yn gosod digwyddiadau a gwrthrychau yn eu trefn.
3. Byddant yn fwyfwy ymwybodol o'r ffaith fod modd rhannu'r gorffennol yn wahanol gyfnodau amser, ac yn adnabod rhai o nodweddion tebyg a gwahanol y cyfnodau hynny.
4. Byddant yn disgrifio nodweddion cymdeithasau a chyfnodau yn y gorffennol ac yn nodi newidiadau o fewn ac ar draws cyfnodau.
5. Byddant yn disgrifio nodweddion cymdeithasau a chyfnodau yn y gorffennol, ac yn dechrau nodi'r cysylltiadau rhyngddynt.
6. Byddant yn disgrifio cymdeithasau a chyfnodau yn y gorffennol, ac yn nodi cysylltiadau rhwng nodweddion o fewn ac ar draws cyfnodau.
7. Byddant yn nodi cysylltiadau rhwng eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth amlinellol a manwl o hanes Cymru a Phrydain a meysydd cynnwys eraill. Defnyddiant hynny i ddadansoddi'r perthnasoedd rhwng nodweddion cyfnod neu gymdeithas benodol ac i ddadansoddi achosion a chanlyniadau digwyddiadau a newidiadau.

8. Byddant yn defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth amlinellol a manwl o hanes Cymru a Phrydain a meysydd cynnwys eraill i ddadansoddi ac esbonio perthnasoedd, a'u gosod yn eu cyd-destun hanesyddol ehangach

Dilyniant mewn Gwybodaeth a dealltwriaeth hanesyddol

Dylai'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau hanesyddol drwy ystod gynyddol o wybodaeth a dealltwriaeth o bobl, digwyddiadau a newidiadau yn y gorffennol, o rai cyfarwydd a diweddar i rai o'r gorffennol pell sy'n gysylltiedig â lleoedd pell i ffwrdd. Dylen nhw gael cyfleoedd i ystyried achosion a chanlyniadau, gwneud cysylltiadau a chymariaethau, a dadansoddi a gwerthuso pwysigrwydd digwyddiadau, personoliaethau a newidiadau penodol.

1. Bydd y disgyblion yn gwybod am ddigwyddiadau mewn storïau am y gorffennol a gallant eu disgrifio.
2. Byddant yn dangos gwybodaeth o agweddau ar y gorffennol ac o rai o'r prif ddigwyddiadau a phobl y maent wedi eu hastudio. Byddant yn dechrau sylweddoli bod rhesymau sy'n esbonio pam y gweithredodd pobl yn y gorffennol fel y gwnaethant.
3. Byddant yn dangos gwybodaeth am rai o'r prif ddigwyddiadau, pobl a newidiadau a astudir. Byddant yn dechrau cynnig ychydig o resymau dros y prif ddigwyddiadau a newidiadau, a'u canlyniadau.
4. Byddant yn disgrifio rhai o'r prif ddigwyddiadau, pobl a newidiadau. Rhoddant rai o achosion a chanlyniadau'r prif ddigwyddiadau a newidiadau gan ddechrau gwneud cysylltiadau rhyngddynt.
5. Byddant yn disgrifio digwyddiadau, pobl a newidiadau. Disgrifiant achosion a chanlyniadau perthnasol digwyddiadau a newidiadau, a nodant gysylltiadau rhyngddynt.
6. Byddant yn disgrifio cymdeithasau a chyfnodau yn y gorffennol ac yn nodi cysylltiadau rhwng nodweddion o fewn ac ar draws cyfnodau. Byddant yn archwilio ac yn dechrau dadansoddi achosion a chanlyniadau digwyddiadau a newidiadau.
7. Byddant yn defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth amlinellol a manwl o hanes Cymru, Prydain a meysydd cynnwys eraill i ddadansoddi'r perthnasoedd rhwng nodweddion cyfnod neu gymdeithas benodol, ac i ddadansoddi achosion a chanlyniadau digwyddiadau a newidiadau.

8. Byddant yn gosod eu hesboniadau a'u dadansoddiadau o'r perthnasoedd rhwng digwyddiadau, pobl a newidiadau, a rhwng nodweddion cymdeithasau yn y gorffennol ac o achosion a chanlyniadau digwyddiadau a newidiadau yn eu cyd-destun hanesyddol ehangach.

Dilyniant mewn Dehongliadau o hanes

Dylai'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau mewn Dehongliadau o hanes drwy ddefnyddio amrywiaeth o gynrychiolaethau a dehongliadau i ddatblygu gwerthfawrogiad o'r gwahanol ffyrdd o gynrychioli a dehongli'r gorffennol, dilysrwydd gwahanol ddehongliadau a sut mae haneswyr yn penderfynu ar ddehongliadau o hanes.

1. Bydd y disgyblion yn dechrau adnabod cynrychiolaethau o'r gorffennol.
2. Byddant yn dechrau sylweddoli bod gwahanol ffyrdd o gynrychioli'r gorffennol.
3. Byddant yn nodi rhai o'r gwahanol ffyrdd o gynrychioli'r gorffennol.
4. Byddant yn dangos sut mae rhai agweddau ar y gorffennol wedi cael eu cynrychioli a'u dehongli mewn gwahanol ffyrdd.
5. Byddant yn gwybod bod rhai digwyddiadau, pobl a newidiadau wedi'u dehongli mewn gwahanol ffyrdd ac awgrymant resymau posibl dros hynny.
6. Byddant yn disgrifio gwahanol ddehongliadau hanesyddol o ddigwyddiadau, pobl a newidiadau ac yn dechrau eu hesbonio.
7. Byddant yn esbonio sut a pham y mae gwahanol ddehongliadau hanesyddol wedi'u cynhyrchu.
8. Byddant yn dadansoddi ac yn esbonio gwahanol ddehongliadau hanesyddol, ac yn dechrau eu gwerthuso.

Dilyniant mewn Ymholi hanesyddol

Dylai'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau mewn Ymholi hanesyddol drwy ddatblygu eu sgiliau wrth ofyn cwestiynau hanesyddol, strwythuro ac ystyried llwyddiant ymchwiliadau, a defnyddio amrywiaeth fwyfwy eang o ffynonellau hanesyddol.

1. Bydd y disgyblion yn dechrau gofyn a dod o hyd i atebion i gwestiynau syml am y gorffennol o ffynonellau.
2. Byddant yn gofyn ac yn ateb cwestiynau am y gorffennol drwy wneud arsylwadau syml o ffynonellau hanesyddol.
3. Byddant yn gofyn cwestiynau am y gorffennol ac yn cynnig dulliau o ganfod atebion drwy ddefnyddio ffynonellau hanesyddol.
4. Byddant yn dechrau dethol a chyfuno gwybodaeth o ffynonellau hanesyddol i gefnogi ymholiad hanesyddol a gwerthuso ei lwyddiant.
5. Gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, byddant yn dechrau gofyn cwestiynau hanesyddol a gwerthuso ffynonellau hanesyddol. Byddant yn nodi'r rhai sy'n ddefnyddiol wrth ateb cwestiynau penodol ac yn gwerthuso llwyddiant eu strategaethau.
6. Byddant yn defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i ddatblygu trywyddau ymholi, ac yn nodi ac yn gwerthuso ffynonellau hanesyddol gan eu defnyddio'n feirniadol i lunio ac ategu casgliadau. Byddant yn gwerthuso eu gwaith ac yn ystyried y dulliau a ddefnyddir ganddynt.
7. Byddant yn dechrau dangos annibyniaeth wrth ddatblygu strategaethau i ddilyn trywyddau ymholi. Byddant yn nodi ac yn gwerthuso ffynonellau hanesyddol gan eu defnyddio'n feirniadol mewn perthynas â chwestiynau penodol. Dechreuant lunio a myfyrio ar eu casgliadau cadarn hwy eu hunain.
8. Gan ddefnyddio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth, byddant yn defnyddio ffynonellau hanesyddol yn feirniadol. Byddant yn diffinio, cynnal a gwerthuso ymchwiliadau i dopigau hanesyddol gan lunio yn annibynnol eu casgliadau cadarn hwy eu hunain.

Dilyniant mewn Trefnu a chyfathrebu

Dylai'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau drwy ddewis, trefnu a chyfleu ystod a dyfnder cynyddol o wybodaeth mewn nifer o ffyrdd.

1. Bydd y disgyblion yn adnabod ac yn grwpio darnau o wybodaeth i gyfleu eu hymwybyddiaeth o'r gorffennol.
2. Byddant yn dechrau dewis, trefnu a chyfleu darnau o wybodaeth am y gorffennol.
3. Byddant yn dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth hanesyddol mewn amrywiol ffyrdd, gan gynnwys TGCh.

4. Byddant yn dechrau cynhyrchu gwaith strwythuredig, gan ddefnyddio dyddiadau a thermâu'n briodol.
5. Byddant yn dewis a threfnu gwybodaeth i gynhyrchu gwaith strwythuredig, gan ddefnyddio dyddiadau a rhai thermâu arbenigol yn briodol.
6. Byddant yn dewis, trefnu a defnyddio gwybodaeth berthnasol i gynhyrchu gwaith strwythuredig, gan ddefnyddio dyddiadau a thermâu arbenigol yn briodol.
7. Byddant yn dewis, trefnu a defnyddio gwybodaeth berthnasol i lunio naratifau, disgrifiadau ac esboniadau celfydd eu strwythur, gan ddefnyddio dyddiadau a thermâu arbenigol yn briodol.
8. Byddant yn dewis, trefnu a defnyddio gwybodaeth berthnasol i gynhyrchu naratifau, disgrifiadau ac esboniadau sy'n gyson gelfydd eu strwythur, gan ddefnyddio dyddiadau a thermâu arbenigol yn briodol.

Adran

3

Defnyddio'r disgrifiadau lefel yng
Nghyfnod Allweddol 2

Nid yw'n ofynnol llunio barn diwedd cyfnod allweddol mewn hanes yng Nghyfnod Allweddol 2. Fodd bynnag, bydd gwybod am nodweddion y disgrifiadau lefel yn eich helpu i adnabod cryfderau'r dysgwyr, yn ogystal â'r meysydd y mae angen eu gwella, a bydd yn eich helpu i gynllunio ar gyfer dilyniant.

Efallai y bydd y pwyntiau canlynol yn ddefnyddiol i chi pan fyddwch yn ystyried y proffiliau yn yr adran hon.

- Ni chaiff y proffiliau dysgwr eu cyflwyno fel model ar gyfer y modd y dylech gasglu tystiolaeth am eich dysgwyr. Materion i athrawon sy'n gweithio o fewn polisi ysgol y cytunwyd arno yw penderfyniadau ynghylch casglu tystiolaeth a phenderfyniadau ynghylch diben y dystiolaeth honno a'r defnydd a wneir ohoni.
- Mae'r sylwadau a geir ynghylch y darnau o waith wedi'u hysgrifennu er mwyn tynnu sylw at briodweddau arbennig sy'n perthyn i'r gwaith, ac mae'r sylwadau'n cysylltu â nodweddion y disgrifiadau lefel. Nid bod yn enghraifft o adroddiad i rieni/warcheidwaid yw eu bwriad.
- Rhan fach yn unig o'r wybodaeth a'r profiadau sy'n perthyn i wybodaeth athrawon o bob dysgwr yw'r deunyddiau a geir ym mhob proffil dysgwr. Nid yw'r deunyddiau'n adlewyrchu'r holl wybodaeth y byddwch wedi ei chasglu am bob dysgwr dros amser ac ar draws ystod o wahanol gyd-destunau. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i adnabod cryfderau'r dysgwyr a'r meysydd y mae angen eu datblygu, a chynllunio ar gyfer dilyniant.
- Efallai y bydd angen i rai o'ch dysgwyr ddefnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu eraill er mwyn dangos beth maen nhw'n ei wybod, beth maen nhw'n ei ddeall a beth maen nhw'n gallu'i wneud.

Katie | Nodweddion o Lefelau 2 a 3

Mae Katie yn ddysgwr 11 oed yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae ei hathro yn gwybod llawer mwy am berfformiad Katie nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Katie ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae proffil Katie yn dangos rhai nodweddion o Lefelau 2 a 3, ond mae'n dangos nodweddion Lefel 2 yn bennaf.

Fel rhan o'u gwaith ar yr ugeinfed ganrif a hanes lleol ym Mlwyddyn 6, cynlluniodd athro Katie i'r dosbarth ymchwilio i'r newidiadau yn y gymuned leol yn ystod yr ugeinfed ganrif. Adeiladodd hyn ar ymchwiliadau i fywyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a wnaed ym Mlwyddyn 5. Darparodd y cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn gyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau ym mhob un o'r pum sgîl a nodwyd yn y rhaglen astudio. Wrth gyflwyno canlyniadau eu gwaith ar y cyfrifiad, mae Katie hefyd yn darparu tystiolaeth o'i chyrhaeddiad mewn sgiliau TGCh a rhif, yn ogystal â'i chyrhaeddiad mewn hanes.

Ymhlith ffynonellau a ddefnyddiwyd yn yr ymchwiliad roedd canlyniadau'r cyfrifiad, hen ffotograffau a ffotograffau diweddar, recordiad o ddetholiad o lyfr am hanes lleol a chyfeirlyfrau dosbarth. Anogwyd y dosbarth hefyd i holi eu teuluoedd am eu hatgofion o'r ugeinfed ganrif.

Gweithgaredd 1

Beth gallwn ei ddysgu o ganlyniadau'r cyfrifiad ar gyfer ein pentref?


Rhoddwyd setiau o ffigurau poblogaeth i grŵp Katie o ganlyniadau'r cyfrifiad ar gyfer plwyf Llanegwad yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Yn y gweithgaredd cyntaf, defnyddiodd aelodau'r grŵp eu sgiliau TGCh i lunio graff yn dangos newidiadau mewn poblogaeth yn y plwyf rhwng 1801 a 1981 a gwnaethan nhw ysgrifennu rhai brawddegau amdany'n nhw. Fe'i hanogwyd i ddefnyddio'r termau 'poblogaeth' a 'blynyddoedd' yn ei sylwadau ar y graff cyntaf.

Poblogaeth Plwyf Llanegwad



BLWYDDYN	POBLOGAETH
1801	1557
1901	1372
1911	1271 (Dynion 608, Merched 663)
1971	1,019
1991	1739 (Dynion 866, Merched 873)


Allwch chi greu graff i ddangos y data poblogaeth? Cofiwch labelu eich graff. Gludwch eich graff yma.



Ysgrifennwch frawddegau am y data e.e. Pryd oedd y nifer fwyaf o bobl yn byw yn y plwyf?

Mae'r graff hon yn dangos poblogaeth plwyf Llanegwad yn y blynyddoedd. Nifer fwyaf o bobl yn byw yn y plwyf oedd yn 1991 oedd 1739. Y poblogaeth lleiaf oedd yn 1801 y poblogaeth oedd 1557.

Wedyn cymharodd y grŵp ddata manylach ar gyfer 1911 a 1991. Yn gyntaf gwnaethan nhw lunio graff i ddangos y gymhariaeth, ac wedyn ysgrifennu tair brawddeg am Lanegwad yn seiliedig ar yr wybodaeth. Mae Katie'n dethol gwybodaeth yn gywir o'r ffynhonnell, ac mae ei sylwadau yn dangos ei bod hi'n gwahaniaethu rhwng agweddau ar ei bywyd ei hunan ac adegau yn y gorffennol (nodwedd o Lefel 2).



- 1. Roedd mwy o bobl yn byw yn y plwyf yn 1991 nag yn 1911.**
- 2. Roedd 663 o ferched yn byw yn Llanegwad yn 1911 ond yn 1991 roedd 873. Roedd 210 yn fwy o ferched.**
- 3. Mae mwy o ferched nag o ddynion yn y ddwy flwyddyn.**

gan Katie

Yn y trydydd gweithgaredd yn seiliedig ar y cyfrifiad, gofynnwyd i grŵp Katie astudio'r nifer o dai a gofnodwyd ar gyfer blynyddoedd rhwng 1831 a 1991, ac ysgrifennu tair brawddeg am yr hyn roedden nhw wedi'i ddarganfod. Mae ei graff yn fanwl gywir, ac mae ei brawddegau yn dangos ei bod hi'n *dechrau dewis, trefnu a chyfleu darnau o wybodaeth am y gorffennol* (nodwedd o Lefel 2).

Data Cyfrifiad Plwyf Llanegwad

Edrychwch ar y data.



Blwyddyn	Nifer o dai
1831	434
1841	528
1851	446
1861	436
1871	416
1881	404
1891	370
1901	348
1921	298
1931	304
1951	327
1961	320
1991	648


Defnyddiwch becyn trin data i greu graff i ddangos y data. Ysgrifennwch dair brawddeg am yr hyn rydych chi'n ei ddarganfod.

Mae pob un o graffiau Katie yn gosod blynyddoedd *yn eu trefn*, gan adlewyrchu ei *hymwybyddiaeth gynyddol o Gronoleg* (nodwedd o Lefel 2). Mae brawddegau Katie yn dangos ei bod hi'n gallu *ateb cwestiynau am y gorffennol drwy wneud arsylwadau syml o ffynonellau* (nodwedd o Lefel 2), ond nid oedd unrhyw dystiolaeth ei bod hi'n dechrau *gofyn cwestiynau am y gorffennol drwy ddefnyddio ffynonellau hanesyddol* (nodwedd o Lefel 3). Darparodd y gweithgareddau hyn dystiolaeth ar gyfer sgiliau TGCh a rhif Katie yn ogystal ag ar gyfer ei hymwybyddiaeth gronolegol a'i sgiliau ymholi.

Mae'r graff yn dangos bod mwy o dai yn y plwyf Llanegwad yn 1991 nag oedd y blynyddoedd cyn hynny.

Yn 1921 dim ond 298 o dai oedd yn y plwyf. Dyma'r nifer isaf o dai ers 1841.

O 1841 i 1921 mae nifer o dai yn y plwyf yn mynd i lawr. O 1931 ymlaen mae'n codi.



Gweithgaredd 2 | Beth gallwn ei ddarganfod am ein pentref o hen ffotograffau?

Bwriadwyd i'r gweithgaredd hwn ddatblygu ymwybyddiaeth gronolegol a'r defnydd o ffotograffau fel ffynonellau hanesyddol. Rhoddwyd ffotograff o sgwâr y pentref yn 2003 i bob grŵp, a gofynnwyd iddyn nhw ei gymharu â ffotograff a dynnwyd o'r un man yn 1910, gan nodi'r hyn a oedd yn debyg ac yn wahanol rhwng y ddau, a roi rhai rhesymau dros y rhain. Mae sylwadau Katie ar y ffotograffau yn gywir ac yn fanwl, ac mae'r rhesymau a roddir ganddi hi dros y gwahaniaethau hefyd yn gywir, sy'n dangos ei bod hi unwaith eto yn *gwahaniaethu rhwng ei bywyd ei hunan a'r gorffennol* (nodwedd o Lefel 2). Er hynny, nid yw ei rhesymau dros y gwahaniaethau ond yn canolbwyntio ar y ffaith nad oedd unrhyw drydan, ceir na lorïau, ac mae ei sylw olaf 'nid oes loris i gwneud y llienellau ac roedd nhw ddim gallu yffordd nhw' hefyd yn awgrymu er bod Katie yn *dechrau sylweddoli bod rhesymau sy'n esbonio pam y gweithredoedd pobl yn y gorffennol fel y gwnaethant* (nodwedd o Lefel 2), y bydd angen rhagor o gymorth arni hi i *adnabod rhai o nodweddion tebyg a gwahanol rhwng cyfnodau a'r rhesymau dros ddigwyddiadau a newidiadau* (nodweddion o Lefel 3).



NANTGAREDIG- Ddoe a Heddiw

Edrychwch yn ofalus ar y ddau lun o sgwâr Nantgaredig. Tynnwyd un ohonynt yn 1910 a'r llall yn 2003. Llenwch y tabl.



Pethau sy'n debyg...	Pethau sy'n wahanol...
Mae cerbyd yn y ddau.	Nid oes galweddu nes i gael yn y
Mae yna heol yn y ddau.	llaw da a gwyn.
Mae yna dŷ yn y ddau.	Nid oes cerbyd yn y heol a gwyn.
Mae rhai o'r tai yn y pethau.	Nid oes cerbydion i gael yn y heol a gwyn.
	Nid oes llawer o'r cerbyd yn y heol a gwyn.
	Nid oes trwm i gael yn y heol a gwyn.
	Nid oes cerbyd a cerbyd yn y heol a gwyn.
	Nid oes cerbyd yn y heol a gwyn.
	Nid oes cerbyd yn y heol a gwyn.

Eglurwch pam fod rhai o'r pethau'n wahanol.

Rhywbeth sy'n wahanol...	PAM?
Nid oes trwm i gael yn y heol a gwyn.	Cherbydau dyfodol rhai ddim golydd a golydd rhai.
Nid oes galweddu nes i gael yn y heol a gwyn.	Cherbydau dyfodol dim trwm i gael golydd rhai.
Nid oes cerbyd yn y heol a gwyn.	Cherbydau dyfodol dim cerbyd i gael yn y heol a gwyn.
Nid oes llawer o'r cerbyd yn y heol a gwyn.	Cherbydau dyfodol dim cerbyd i gael yn y heol a gwyn.

Gweithgaredd 3 | I ba gyfnod yn y gorffennol y mae'r ffotograffau hyn yn perthyn?

Bwriadwyd i weithgaredd dilynol gynorthwyo'r dysgwyr i ddatblygu fframwaith cronolegol, a hefyd rhoi cyfle iddyn nhw ddefnyddio eu sgiliau TGCh. Rhoddwyd detholiad o ffotograffau i bob grŵp yn y dosbarth, a gofynnwyd iddyn nhw eu rhoi yn eu trefn gronolegol gywir, gan ddefnyddio cyfeirlyfrau a'r rhyngrwyd i ddod o hyd i'r dyddiadau cywir. Roedd Katie yn gallu rhoi'r delweddau yn eu trefn gronolegol a dod o hyd i'r dyddiadau cywir ar eu cyfer. Wrth drafod â'i hathro gosododd delweddau o *ddigwyddiadau a gwrthrychau yn eu trefn*, a gwahaniaethodd *rhwng agweddau ar ei bywyd ei hunan ac adegau yn y gorffennol* (nodweddion o Lefel 2). Mae ei hymatebion yn awgrymu y bydd angen rhagor o gymorth arni hi i ddatblygu'r ymwybyddiaeth y gellir *rhannu'r gorffennol yn wahanol gyfnodau* (nodwedd o Lefel 3).



Dewi Sant yn marw

589



1146 Gerallt Gymro

1223



Yr Esgob William Morgan yn cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg

1538



1839 Terfysgoedd Rebecca

1844



Y Llyfrgell Genedlaethol yn agor yn Aberystwyth

1907



Caerdydd yn cael ei gwneud yn brifddinas Cymru

1955



Agor Stadiwm y Mileniwm, yng Nghaerdydd

1999



Gwynfor Evans yn marw.

2005



Agoriad swyddogol adeilad newydd y Cynulliad yng Nghaerdydd

2006


Gweithgaredd 4 | Sut gallwn ddod o hyd i wybodaeth am hanes ein pentref?

Rhoddwyd cyfle i ddosbarth Katie ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o hanes eu pentref drwy wrando ar ddetholiad o lyfr am hanes lleol. Disgrifiodd y detholiad a ddewiswyd newidiadau i'r ysgol ei hunan ac i ganol y pentref yn ystod yr ugeinfed ganrif. Roedd gwaith Katie yn dangos nodweddion Lefel 2, am ei bod hi'n *dechrau dewis, trefnu a chyfleu* rhywfaint o'r wybodaeth hon, *yn gwneud arsylwadau syml o ffynonellau hanesyddol*, ac mae ei hymateb olaf yn nodi *ffyrdd o gynrychioli'r gorffennol*. Er hynny, roedd ei hathro o'r farn ei bod hi'n dechrau dangos rhai o nodweddion Lefel 3 hefyd yn y gweithgaredd strwythuredig hwn. Ychwanegodd hi ei sylwadau ei hunan ar newid yn y pentref dros amser, yn seiliedig ar yr hyn yr oedd wedi'i ddysgu o'i theulu ei hunan. Nododd pa fylchau yn ei gwybodaeth yr hoffai eu llenwi a sut gallai wneud hynny, a gan drafod â'i hathro, awgrymodd efallai y byddai modd iddi hi ddod o hyd i wybodaeth am yr ysgol yn 1902 drwy ofyn i bobl yn yr ardal. Dangosodd hyn oll fod Katie, gyda chymorth, yn dechrau meddwl am *ofyn cwestiynau am y gorffennol ac yn cynnig dulliau o ganfod atebion drwy ddefnyddio ffynonellau hanesyddol* (nodwedd o Lefel 3).

Dyma lyfr gan Elonwy Phillips sy'n sôn am hanes Plwyf Llanegwad a phentref Nantgaredig.

Gwrandewch ar ddarn o'r llyfr ac yna cwblhewch y paragraff.

Mae Elonwy Phillips wedi gwneud llawer o waith ar hanes Plwyf Llanegwad ac mae hi'n dweud pethau am hanes pentref Nantgaredig fel...



Cafodd Nantgaredig i cael i enwa ar ôl ceredig ddi dew, sant. Yn 1928 fe gafodd adeiladu plant ac yn 1941 cafodd i llosgwyd i'r llawr. Yn 1962 cafodd ysgol nantgaredig i adeiladu ac yn 1969 fe gorfod adeiladu petri newydd i'r ysgol. Roedd yn nantgaredig, capel, swyddfa bost, teilwri, clydd a lot a shopau. Yn 1973 roedd chet chathrawon yn ysgol nantgaredig.

Dyma beth rydw i wedi sylwi sydd wedi newid dros amser ym mhentref Nantgaredig a'r ardal...

- mae'r ysgol wedi newid
- Mae na mwy o tau
- dymond i'r shop sydd mae na llai o shopau a chrefftwir
- tafarn yn mwy ffishi
- nid oes tren yn mynd trwi nantgaredig rhagor
- mae llai o pobol yn mynd i'r capel

Ar ôl gwneud y gwaith yma hoffwn wybod mwy am....

Shopsi oedd arfer
Rodd yn pentref
nantgaredig or
blaen.

Gwaith yr
arch eolegwir!



hanes pysgota
yn yr hen dyddiau

ysgol nantgaredig
yn 1902.

Fe allwn wneud hyn drwy....



Crynodeb

Mae proffil Katie yn dangos rhai nodweddion o Lefel 2 a Lefel 3, ond nodweddion Lefel 2 yn bennaf.

Yn ei gwaith yn y tri gweithgaredd cyntaf, mae Katie yn defnyddio termau sy'n ymwneud â threigl amser, yn gosod digwyddiadau yn eu trefn gronolegol ac yn gwahaniaethu rhwng agweddau ar ei bywyd ei hunan a'r gorffennol. Mae ei gwaith ar y ffotograffau a'r llinell amser yn dangos ei bod hi'n dechrau deall bod rhesymau pam gweithredodd pobl yn y gorffennol fel y gwnaethan nhw, ac mae hi'n gwneud sylwadau syml o'r ffynonellau. Wrth drafod y llyfr am hanes lleol, mae hi'n dangos ei bod hi'n dechrau deall bod gwahanol ffyrdd o gynrychioli'r gorffennol, ac mae hi'n dechrau dewis, trefnu a chyfleu ei chanfyddiadau gan ddefnyddio graffiau a llinellau amser yn ogystal ag ysgrifennu.

Yn gyffredinol roedd yr athro o'r farn bod Katie wedi gwneud cynnydd ym mhob un o'r meysydd sgil yn y rhaglen astudio, yn arbennig mewn Ymholi hanesyddol gan ddefnyddio ffynonellau. Fel cam nesaf, mae angen i Katie ddatblygu ei dealltwriaeth o gronoleg ac o'r gwahaniaethau rhwng gwahanol gyfnodau. Dylai hi gael cyfleoedd i ddatblygu ei dealltwriaeth o achos a chanlyniad mewn hanes, ac o'r modd mae dehongliadau hanesyddol yn cael eu llunio. Drwy wneud defnydd pellach o ffynonellau hanesyddol bydd hi'n datblygu ei dealltwriaeth o'r modd y caiff gwybodaeth a geir ei dewis a'i chyfuno i lunio dehongliad.

Sara Lois | Nodweddion o Lefelau 3, 4 a 5

Mae Sara Lois yn ddysgwr 11 oed yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae ei hathrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Sara Lois nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Sara Lois ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae proffil Sara Lois yn dangos rhai nodweddion o Lefelau 3, 4 a 5, ond mae'n dangos nodweddion Lefel 4 yn bennaf.

Cynlluniodd athrawes Sara Lois i'r dosbarth ymchwilio i hanes eu cymdogaeth yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ym Mlwyddyn 6, gan integreiddio hanes lleol â'u hymchwiliad i'r newidiadau a oedd yn digwydd ym myd diwydiant yng Nghymru a Phrydain bryd hynny. Fel rhan o'u gwaith mewn daearyddiaeth, ymchwiliodd dosbarth Sara Lois i'r effaith a gafodd nodweddion naturiol megis yr afon leol ar ddatblygiad diwydiant, y rhesymau dros leoliad diwydiannau a'u heffaith amgylcheddol. Ymwelwyd ag adfeilion y melinau lleol, gan fyfrio ar eu lleoliad, eu pwysigrwydd yn y gorffennol, ac ar y rhesymau pam roedden nhw wedi stopio gweithio. Gwnaed defnydd helaeth hefyd o amrywiaeth o adnoddau ar gyfer hanes lleol, gan gynnwys hen ffotograffau, mapiau, cyfeirlyfrau masnach ac adnoddau priodol o archifdy'r sir ynghyd ag atgofion aelodau o'r teulu a phobl hŷn yn y gymuned.

Darparodd y cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn gyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau ym mhob un o'r pum sgîl a nodwyd yn y rhaglen astudio.

Gweithgaredd 1 | Sut fywyd oedd gan felinydd ŷd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg?

Roedd y dosbarth yn gweithio mewn grwpiau, pob un yn astudio diwydiant lleol gwahanol. Dewisodd grŵp Sara Lois Melin Hywel, melin ŷd gerllaw'r ysgol. Trafododd aelodau'r grŵp y cwestiynau y bydden nhw'n hoffi eu gofyn i'r melinydd yno yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac fe'u hanogwyd i ofyn cwestiynau yn ymwneud â'r rhesymau dros wahanol weithredoedd. Gan ddefnyddio'r adnoddau a oedd ganddyn nhw, roedden nhw'n gweithio ar eu pen eu hunain i lunio cyfweiliad dychmygol.

Mae'r melinydd yng nghyfweliad Sara Lois yn disgrifio gwaith y felin, ac mae hefyd yn cyfeirio at gael ei dalu mewn cynnyrch 'Dydw i ddim yn gofyn i'r ffermwyr dalu mewn arian. Rydw i yn cymryd ychydig o'r blawd i'w werthu i gwsmeriaid arall' ac at yr angen i storio dŵr 'Mae'r gronfa ddŵr wedi cael ei hadeiladu yn y caeau oherwydd yn yr haf os fydd o ddim yn bwrw glaw am ddyddiau fydd 'na ddim dŵr i droi'r olwyn ddŵr mawr'. Mae hi'n dangos ei bod hi'n gallu disgrifio *rhai o nodweddion y cyfnod hwnnw* (nodwedd o Lefel 3). Er hynny, er bod y cyfweiliad yn dangos yn glir bod Sara Lois yn deall bod *rhesymau dros y prif ddigwyddiadau a newidiadau* (nodwedd o Lefel 3), mae llai o dystiolaeth ei bod hi'n gallu rhoi *rhai o achosion a chanlyniadau'r prif ddigwyddiadau a newidiadau* (nodwedd o Lefel 4). Er hynny, mae'r cyfweiliad hwn, am fod ganddo ddechrau a diwedd clir ac am ei fod yn gwneud defnydd cywir o ddyddiadau a thermau megis 'deunawfed ganrif', 'canrifoedd' a 'tir ffrwythlon', hefyd yn darparu tystiolaeth o rai o nodweddion Lefel 5, am fod Sara Lois yn *dewis a threfnu gwybodaeth i gynhyrchu gwaith strwythuredig, gan ddefnyddio dyddiadau a rhai termau arbenigol yn briodol*.

Mae ateb y melinydd ynglŷn ag atgyweirio'r felin yn cynnwys rhai cyfeiriadau anacronistig, er enghraifft at drydan neu at waith atgyweirio a wnaed ar y felin yn 1890. Wrth drafod â'i hathrawes, roedd yn amlwg bod Sara Lois yn deall na fyddai unrhyw drydan yn y felin yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond nid oedd hi'n deall pam na fyddai'r melinydd wedi gwybod hynny, am ei bod hi'n ei wybod. Tynnodd sylw at y ffaith ei bod hi'n ysgrifennu cyfweiliad radio, a bod angen trydan ar radios. Dangosai'r dryswch hwn o ran prosesau meddwl Sara Lois yn glir pa mor anodd yw cyfuno ysgrifennu creadigol a gwaith asesu sgiliau hanesyddol.

Jonsi: Hello Mr Williams mae gen i gwestiynau i ofyn i chi. Ers pa bryd mae'r felin ddŵr wedi sefyll yn y fan yma?

Mr W: Wel Jonsi bach, dydw i ddim yn siŵr iawn ers faint mae'r felin wedi fod yma ond o'r dystiolaeth rwyf wedi fod yma o wedi ei gael, mae'r felin wedi bod yma ers 1352

Jonsi: Pam gafodd y felin ei enwi yn felin Hywel?

Mr W: Mae fy ~~nheulu~~ Wel, cafodd ei henw ar ôl y melinydd cyntaf a oedd yn barchennog a gweithiwr yn y felin. Ei enw oedd Hywel ap Rhys ar ôl ei dad Rhys.

Jonsi: Ers faint mae dy deulu wedi bod yn gweithio yn y felin?

Mr W: Mae fy ~~nheulu~~ wedi bod yn gweithio yma yn y felin ers dechrau y ddwyaufed ganrif. Mae'r felin wedi cael ei phasio i lawr o Dad i fab ar hyd y canfodedd.

Jonsi: Pam mae'r felin wedi cael ei adoladu ar y safle yma o'r holl safleoedd eraill ar hyd yr afon Afon?

Mr W: Cafodd y felin ei hadoladu yn y safle yma oherwydd y graig enfeth er mwyn cael y dŵr yn iuch na'r olwyn.

Jonsi: Pam mae yna gronfa ddŵr wedi cael ei hadeiladu yn nghanol y caeau?

Mr W: Mae'r gronfa ddŵr wedi cael ei hadeiladu yn y caeau oherwydd yn y haf os fydd o ddim yn llwng glaw am ddyddiau fydd 'na ddim dŵr i droi'r olwyn ddŵr mawr, felly rodd yn gallu cau yr giat tu ôl i'r gronfa i stopio'r dŵr, ac i gaeu'r dŵr, felly fe fydd yna ddigon o ddŵr i droi'r olwyn.

Jonsi: Beth yw'r prif waith sy'n cael ei wneud yn y felin?

Mr W: Y prif waith sy'n cael ei wneud yn y felin yw malu'r grawn i wneud blawd. Oherwydd bod Cymru yn enwog am ei llŵr ffurthlon mae llawer o ffemur yn dat a grawn i mi fel. Rydus i ddim yn gofyn i'r ffemur datu maun arall. Rydus i yn cynryd ychydig o'r blawd i'w werthu i gwsmeriaid arall.

Jonsi: Ydych chi wedi addasu y felin ers 1352?

Mr W: I ddwedd y gwir cofodd y felin ei haddasu yn 1890. Gan wneud yr addad yn dri llawr. Cofodd yr olwyn ddŵr ei haddasu hefyd, roedd yn ddigon mawr i droi tri phâr o feini ac yn gallu malu fwy o saun o lawer.

Jonsi: Oes angen meini arbennig i falu'r grawn?

Mr W: Nodh gws bod angen meini arbennig i falu'r grawn, ond gallun ni gael rheini ychydig o filliroedd i ffwrdd i ffwrdd i lawr y lôn yn Rhosfawr.

Jonsi: Oedd hi yn haws i drowsio y felin yn yr hen amser neu heddiw?

Mr W: Roedd hi yn haws i drowsio y felin yn yr hen amser oherwydd doedd yna ddim ffîws i chwythu na plygiau i trwsio. Yr unig beth oedd angen ei wneud oedd oelio y peiriannau.

Jonsi: Doedd y brech ddim yn gwisgo ar y olwynion?

Mr W: Roedd yr olwynion yn gwisgo ar y tori. Roedd dannedd yr olwynion cocos yn tori, ond roedd saer melinau yn dod o angylch i wneud rhai newydd.

Jonsi: Rydw i yn gwybod bod dy deulu di wedi codw melin llynor sef y melin wynt. Pa hen sydd orau gen ti y melin ddŵr neu y melin wynt?

Mr W: Rwi ddim hyd yn oed angen meddwl am yr ateb. Y felin ddŵr with gwr ydyr gorau, meddwch chi ddim storio gwynt ond gallwch storio dŵr.

Jonsi: Diolch Mr Williams am eich amser a byddwn yn ôl fory yn y stiudio BBC.

Gweithgaredd 2 | Pam y bu'n rhaid i Melin Hywel gau, a sut yr effeithiodd hyn ar y gymuned leol?

Yng ngham nesaf eu gwaith ar Melin Hywel, roedd y grŵp yn ystyried y rhesymau pam y bu'n rhaid i'r felin gau, a'r effaith a gafodd hyn ar y gymuned leol. Mae'r gwaith tra phenodol hwn yn dangos yn glir fod Sara Lois bellach yn rhoi rhai o *achosion a chanlyniadau'r prif ddigwyddiadau a newidiadau* (nodwedd o Lefel 4) ond nid oes unrhyw dystiolaeth ei bod hi'n *nodi cysylltiadau rhwng yr achosion a chanlyniadau perthnasol* (nodwedd o Lefel 5). Mae ei gwaith yn strwythuredig ac mae hi'n *defnyddio dyddiadau a rhai termau arbenigol yn briodol*, ond yn yr achos hwn darperir y strwythur gan y cwestiynau, ac nid yw ei hymatebion yn dangos ei bod hi ei hun yn dewis a threfnu gwybodaeth (nodweddion o Lefel 5).

Melin Hywel
Dyma'r cwestiwn oeddwn eisiau ateb iddo. <i>Pam bu rhaid i'r felin gau i lawr?</i>
Y prif resymau tros gau y felin ddwr. Roedd grawn yn cael ei allffurfio o wledydd eraill, roedd hyn yn cael effaith ar y felin. Cafodd peiriannau eu creu a oedd yn gweithio y gwaith yn gynt ac yn haws. Felly doedd dim gwaith i'r felin. Yr oedd y ffemur yn gallu prynu blawd yn y wicipau. Cafodd rheffydd eu sefydlu ac felly yr oedd yn bosib cario grawn o lefydd eraill.
Yr effaith a gafodd hyn ar y gymdeithas leol. Fe gafodd effaith ar y ffemur oherwydd bu rhaid teithio yn bellach i gael bwyd i'r anifeliad ac roedd y gost yn uwch. Hefyd fe gafodd effaith ar y melinydd oherwydd roddent yn colli ei gwaith ac yn gorfod chwilio am ffordd arall o wneud bywoliaeth. Pan gasodd y felin fe gafodd effaith ar y gymdeithas leol oherwydd nid oedd bosib cael blawd o'r felin ddim mwy ac roedd cost y blawd yn mynd iyny am fod y bobl yn gorfod talu am droed i'r peiriannau. Hefyd cafodd effaith ar bobl y wlad oherwydd roddent yn dibynnu ar y melinydd i gael digon o flawd iddynt ac roddent yn gorfod teithio yn bellach i brynwyr eu blawd.

Gweithgaredd 3 | Beth ydw i wedi'i ddysgu am ddiwydiannau ar Ynys Môn gan mlynedd yn ôl?

Yn ystod cam olaf y gwaith hwn, gwnaeth y grwpiau gyflwyniadau i'r dosbarth cyfan ar y diwydiant a astudiwyd ganddyn nhw, ac ar farn pobl leol roedden nhw wedi trafod y pwnc hwn â nhw. Gwnaeth y disgyblion nodiadau o'r gwahanol gyflwyniadau a gwnaethan nhw ystyried eu canfyddiadau. Mae nodiadau Sara Lois yn dangos ei gwybodaeth a'i dealltwriaeth o'r pwnc hanesyddol yr ymchwiliwyd iddo, mae hi'n disgrifio nodweddion cymdeithas yn y gorffennol ac yn rhoi rhai o achosion a chanlyniadau'r dirywiad mewn diwydiant (nodweddion o Lefel 4). Mae hi hefyd yn nodi newidiadau o fewn ac ar draws cyfnodau ac mae hi'n dechrau cynhyrchu gwaith strwythuredig, gan ddefnyddio dyddiadau a thermâu'n briodol (nodweddion o Lefel 4). Cymerodd Sara Lois ran weithredol yn y drafodaeth grŵp, gan ddefnyddio'r wybodaeth roedd hi wedi'i chasglu am Felin Hywel, ond nid oedd hi bob amser yn llawn ddeall rhai o'r pwyntiau roedd hi wedi'u cofnodi, yn arbennig pam byddai deunyddiau a gynhyrchwyd mewn ffatri yn rhatach na rhai a gynhyrchwyd yn lleol.

Beth ydw i wedi'i ddysgu am ddiwydiannau ar Ynys Môn gan mlynedd yn ôl?

Yn fy marn i roedd y diwydiant gulan yn bwysig i bobl Môn oherwydd dyna oedd ei ffordd o gael arian i'r teulu ar ffordd o fyw. Hefyd roedd y bobl yn cael dullad i'w teulu. Roedd yn bwysig i'r ffemur oherwydd os nad oedd y Panddy yn gweithio ni fydd gan ffemur deunydd i'r gulan a doedent ddim yn cael pres. Roedd Sir Ton yn dibynnu ar ariallthyddiant. Os oedd y Panddy yn cau roedd y bobl oedd yn gweithio yno heb waith, heb arian a hefyd yn rhy ddaud i brynu dullad a bwyd i'r teulu. Heb y Panddy byddai y grefft yn dod i ben.

Rwyf wedi dysgu fod bywyd ers talwm yn anodd heb waith a bod un neidriad yn gallu newid bywydau pobol. Os talwm m'roedd llawer o offer yn cael ei dddefnyddio i wneud dullad a hddiw dim ond peiranna-u ydym yn defnyddio. Rwyf wedi dysgu sut mae'r broses o drin a chreu brethyn yn digwydd, yn gyntaf croddent cnafio â gwallau, cardio neu grilio, myddu guthyddu ac yn olaf pinnu y brethyn. Roedd y Panddy gyntaf yn Llanfechell yn 1430.

Cewodd y Panddy yn y 20 ganaf oherwydd newidiadau technegol. Agorodd ffatrïoedd a oedd yn gallu cynhyrchu defnyddiau yn llawer rhatach a chyflymach technegol.

Gweithgaredd 4 | Sut brofiad oedd bod yn ifaciwi?

Yn ystod eu gwaith ar hanes lleol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd y disgyblion wedi defnyddio amrywiaeth o brif ffynonellau, ond nid oedden nhw wedi cael fawr ddim cyfle i ddefnyddio cynrychiolaethau a dehongliadau. O ganlyniad, penderfynodd eu hathrawes mai dyma fyddai ffocws eu hastudiaeth o'r Ffrynt Cartref. Roedd hefyd yn gyfle i astudio nodweddion cyfnod gwahanol o'r ugeinfed ganrif, a hyrwyddo ymwybyddiaeth gronolegol y disgyblion.

Ymchwiliodd y disgyblion i brofiadau plant faciwî yn arbennig, gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ddehongliadau a chynrychioliadau yn ogystal â thystiolaeth uniongyrchol. Mae Sara Lois yn rhestru'r ffynonellau a ddefnyddiwyd ganddi hi, ond nid yw hi'n gwahaniaethu rhwng cynrychiolaethau a dehongliadau, megis nofelau a fideos, a ffynonellau uniongyrchol megis papurau newydd a llythyrau. Wrth drafod â'i hathrawes, roedd hi'n gallu gwahaniaethu rhyngddyn nhw, ond ni wnaeth ailadrodd hyn yn ei gwaith ysgrifenedig. Mae ei sylw olaf yn dangos ei bod hi'n deall y bydd lluniau plant eraill yn wahanol i'w lluniau hi, ond nid yw hi'n cynnig unrhyw resymau dros y gwahaniaethau hyn. Mae'r ymatebion hyn yn dangos, er ei bod hi'n *nodi rhai o'r gwahanol ffyrdd o gynrychioli'r gorffennol* (nodwedd o Lefel 3), nad yw ei gwaith ond yn dechrau *dangos sut mae rhai agweddau ar y gorffennol wedi cael eu cynrychioli a'u dehongli mewn gwahanol ffyrdd* (nodwedd o Lefel 4).

Ifaciwi ydw i !!

Gwnewch lun ifaciwi yn cyrraedd gorsaf Bangor am y tro cyntaf. Nodwch sut y gwnaethoch eich dehongliad ac o ble y cawsoch y wybodaeth.

Radio 'Carrie's War'
Nofel 'Carrie's War'
Folio yr ail Ryfel byd
yng Nghymru
artiffactau
llyfrau hanes
posteri



Y wi/safe BBC
nodi .pobl
nofel 'Sais ydyo Miss'
folio 'Children in the
Second World War'
lluniau
hen papurau newydd
llythyrau

Crynodeb

Mae proffil Sara Lois yn dangos rhai nodweddion o Lefel 3, Lefel 4 a Lefel 5, ond nodweddion Lefel 4 yn bennaf.

Yn ei chyfweliad â'r melinydd a'i nodiadau ar ddiwydiannau ar Ynys Môn, mae Sara Lois yn dangos ei gwybodaeth a'i dealltwriaeth o rai o nodweddion bywyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a natur gwaith melinydd. Mae hi'n rhoi rhai o achosion a chanlyniadau'r digwyddiadau a'r newidiadau ac yn dewis ac yn cyfuno gwybodaeth o ffynonellau hanesyddol, sydd i gyd yn nodweddiadol o Lefel 4. Er hynny, mae ei gwybodaeth a'i dealltwriaeth o ddehongliadau o hanes yn fwy nodweddiadol o Lefel 3, tra mae'r modd mae hi'n trefnu ac yn cyfleu gwybodaeth hanesyddol yn dangos rhai o nodweddion Lefel 5 yn strwythur ei gwaith a'r defnydd mae hi'n ei wneud o ddyddiadau a thermau.

Er mwyn gwneud rhagor o gynnydd, dylid rhoi cyfleoedd i Sara Lois ddechrau gwneud cysylltiadau rhwng nodweddion cymdeithasau a chyfnodau yn y gorffennol a rhwng achosion a chanlyniadau perthnasol digwyddiadau a newidiadau, a hynny o fewn ac ar draws cyfnodau. Bydd angen cymorth arni hi hefyd i ddatblygu ymhellach ei dealltwriaeth o'r ffyrdd mae rhai agweddau ar y gorffennol wedi cael eu cynrychioli a'u dehongli mewn gwahanol ffyrdd, gan adeiladu ar ei dealltwriaeth o'r ffordd roedd hi wedi dewis a chyfuno gwybodaeth o wahanol ffynonellau i ysgrifennu ei chyfweliad â'r melinydd a gwneud ei llun o'r ifaciwî.

Adran

4

Llunio barn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3

Mae'r adran hon yn dangos sut y gellir defnyddio disgrifiadau lefel pan fyddwch yn llunio barn am y lefel sy'n cyd-fynd orau o safbwynt disgrifio perfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Efallai y bydd y pwyntiau canlynol yn ddefnyddiol i chi pan fyddwch yn ystyried y proffiliau yn yr adran hon.

- Ni chaiff y proffiliau dysgwr eu cyflwyno fel model ar gyfer y modd y dylech gasglu tystiolaeth am eich dysgwyr. Er y byddwch am fedru esbonio pam yr ydych wedi dyfarnu lefel arbennig i ddysgwr ar ddiwedd y cyfnod allweddol, nid yw'n ofynnol esbonio eich barn yn y modd hwn ac nid yw'n ofynnol i'ch barn gael ei hategu gan gasgliadau manwl o dystiolaeth am bob dysgwr. Materion i athrawon sy'n gweithio o fewn polisi ysgol y cytunwyd arno yw penderfyniadau ynghylch casglu tystiolaeth a phenderfyniadau ynghylch diben y dystiolaeth honno a'r defnydd a wneir ohoni.
- Mae'r sylwadau a geir ynghylch y darnau o waith wedi'u hysgrifennu er mwyn esbonio'r farn a luniwyd am berfformiad dysgwr. Nid bod yn enghraifft o adroddiad i rieni/warcheidwaid yw eu bwriad.
- Rhan fach yn unig o'r wybodaeth a'r profiadau sy'n perthyn i wybodaeth athrawon o bob dysgwr yw'r deunyddiau a geir ym mhob proffil dysgwr. Nid yw'r deunyddiau'n adlewyrchu'r holl wybodaeth y byddwch wedi ei chasglu am bob dysgwr dros amser ac ar draws ystod o wahanol gyd-destunau. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i lunio barn gytbwys am y lefel sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad pob dysgwr.
- Byddwch yn llunio barn drwy ystyried cryfderau a gwendidau mewn perfformiad ar draws ystod o gyd-destunau a thros gyfnod o amser. Bydd angen rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu cyrhaeddiad ym mhob agwedd ar y disgrifiadau lefel.
- Efallai y bydd angen i rai o'ch dysgwyr ddefnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu eraill er mwyn dangos beth maen nhw'n ei wybod, beth maen nhw'n ei ddeall a beth maen nhw'n gallu'i wneud.

Anwen

Lefel 4

Mae Anwen yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Anwen nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Anwen ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.


Mae athrawes Anwen o'r farn mai Lefel 4 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad mewn hanes, er ei bod hi hefyd yn dangos nodweddion o Lefel 5.

Dewiswyd yr enghreifftiau hyn o waith Anwen o ddau ymchwiliad hanesyddol a gynhaliwyd yn ystod Blwyddyn 9. Roedd y cyntaf wedi'i strwythuro i ateb y cwestiwn 'Sut y newidiodd Cymru rhwng 1760 a 1914?' ac roedd ymweliad ag amgueddfa lofaol yn rhan o'r ymchwiliad hwn. Darparodd yr ail gyfleoedd i'r dysgwyr ymgymryd â rhywfaint o waith ymholi annibynnol. Fel rhan o'u gwaith ar unigolion a digwyddiadau yn yr ugeinfed ganrif, trafodwyd y cwestiwn 'Pa ddigwyddiadau yn yr ugeinfed ganrif sydd wedi dylanwadu ar ein byd heddiw?'. Gyda chymorth eu hathrawes, cytunodd y disgyblion ar restr o ddigwyddiadau i ymchwilio iddyn nhw, sef plant ifaciwî yn ystod yr Ail Ryfel Byd, achosion Pearl Harbour, yr Holocost, rhannu Berlin ar ôl yr Ail Ryfel Byd, Rhyfel Fietnam ac argyfwng Cuba 1962. Wedyn gofynnwyd i'r disgyblion ddewis dau ddigwyddiad pwysig o 1960 ymlaen ac ymchwilio i'r rhain eu hunain.

Ymhlith yr adnoddau ychwanegol a oedd ar gael ar gyfer yr ymchwiliad hwn roedd map ar ffurf siart wal o'r byd yn yr ugeinfed ganrif, a llinell amser wag fawr ar gyfer y cyfnod 1939 i 2000. Llenwyd y llinell amser hon tra bod y gwaith yn mynd yn ei flaen, a darparodd gyfle i'r disgyblion fyfyrion ar y digwyddiadau a ddewiswyd a'r rhesymau dros eu dewisiadau.

Gweithgaredd 1 | Sut newidiodd Cymru rhwng 1760 a 1914?

Mae diagram Anwen yn dangos y gwahaniaethau rhwng barn y gweithiwr a barn perchennog y mwynglawdd. Mae'n dangos ei bod hi'n deall rhai o nodweddion y gymdeithas honno, ac yn gallu eu disgrifio, a'i bod hi'n deall y gellir cynrychioli'r un amgylchiadau mewn ffyrdd gwahanol, gan gyferbynnu cwyn y gweithiwr 'Teulu yn gorfod gweithio, dim dewis' â sylw perchennog y mwynglawdd 'Cael llai o cyflog yn ffermio'.



Yn ei hateb ar 'Bywyd y gweithwyr', mae Anwen yn dewis ac yn cyfuno gwybodaeth o'r ffynonellau ac yn nodi pan fyddan nhw'n cadarnhau neu'n gwrthddech ei gilydd, ond nid yw hi'n dwyn yr wybodaeth at ei gilydd i ategu casgliad, er bod ffrâm ysgrifennu wedi'i rhoi i'r disgyblion i'w helpu.

Gwaith dosbarth

Bywyd y Gweithwyr

Mae hanesydd David Evans yn dweud bod bywyd y gweithwyr yn anodd dros ben. mae ffynonellau on yn cyfnewid, mae nhw'n dweud bod budd ~~at~~ pobol yn gweithio o ddiwrddwr heb gweid y gelwir hwn. ffynonellau arall sy'n atnodi y safon hwn yn ffynonellau a chwerwyd mae'n son am radd na ddin system garffosiad. ac radd cyflwr y adeiladau yn wael iawn.

Ar y law arall mae ffynonellau Dd yn anghyfuno chwerwyd mae Alys Davies yn dweud bod pob dydd llun bydd hwn yn gogion Sul yn cerdded ar y Strad yn canu ar brad llaw yn lykilio. Mae ffynonellau ff hwyd yn anghyfuno chwerwyd radd pobol ddal yn gored chwaraeon yn ffynonellau ac bydd nhw gweid y chwaraeon am 7.30 p.m.

Wrth ddisgrifio sut mae bywydau gweithwyr yn wahanol heddiw i fywydau gweithwyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae Anwen yn gwneud cysylltiadau rhwng y nodweddion a ddisgrifiwyd yn y gweithgaredd blaenorol a rhai'r presennol.

Sut mae bywyd y gweithwyr wedi newid erbyn heddiw.

Mae bywyd wedi newid erbyn heddiw oherwydd os mae pobl yn sal neu wedi cael danwain mae nhw'n gallu cael amser bwrw ac hefyd mae plant ddim yn gweithio yn gwmwl tan mae nhw'n 18 ac mae plant fed find i ysgol, mae o'n yn erbyn y llwyddraith os mae plant ddim yn mynd i ysgol am ddiwyd ond mae'n derbynol os mae plant yn sal neu wedi cael danwain.

Gweithgaredd 2 | Pam cafodd plant eu symud o'r dinasoedd mawr i gefn gwlad, a beth gallwn ei ddysgu am hyn o ffotograffau cyfoes?

Gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau ar brofiadau plant faciwi, mae Anwen yn disgrifio eu cynnwys, ac yn dewis ac yn cyfuno gwybodaeth ohonyn nhw i ategu eu hymchwiliad. Yn ei hateb i gwestiwn 1, mae hi'n nodi rhai o achosion y paratodau ar gyfer symud plant o'r dinasoedd mawr ('ofn ...bod ...hitler yn mynd i defnyddio awyrennau i bomio') a'r propaganda ('i dweud y neges wrth y pobol') ond mae gweddill ei hateb weithiau yn ddryslyd ('Roedd merched angen coginio efo lot llawer o fwyd'). Er ei bod hi'n ceisio gwerthuso ffynonellau yn ei hatebion i gwestiynau 5–8, mae'r rhesymau a roddir ganddi hi'n rhai arwynebol ('Roedd na llawer o plant yn y llun ac ti ddim yn gwebod os roedd na plant yna bob amser').

Sgw. Enwig ail degaf Eglur byd.

1. Roedd angen paratoi chwaredd roedd ofn arni o bod bydd hitler yn mynd i defnyddio awyrennau i bomio.
Roedd angen paratoi propaganda i dweud y neges wrth y pobol. Roedd buget yn cael ei dogni. Roedd merched angen coginio efo lot llawer o fwyd. Dillad hafud yn cael ei dogni. Yr effaith mwyaf oedd yr effaith, roedd angen symud plant o Llundain i gefn gwlad. Roedd llawer o effaith wedi cael ei symud i gamau.
2. Yn fy mharn i y effaith mwyaf oedd yr effaith chwaredd roedd llawer o plant yn cael ei rhyng.
3. Mae Hynonell 1 a 2 yn y disgrifio. Sut roedd y plant yn gael eu symud o Llundain i gefn gwlad. Roeddun yn symud ar hen o paddington yn 1942. Mae plant yn y dau llun yn gwisgo label. Ac yn edrych fel pawl yn y ffynonell 2 mae na nws o'r wya yn edrych ar ei y plant yn ifanc iawn ac yn edrych yn drist iawn.

4a) Mae plant yn Hynonell 3 a 4 yn edrych yn hapus.

b) Yn fy mharn i rwy'n meddwl bod mae plant yn edrych

edruen yn hapus oherwydd nhw'n edrych ymlaen at
cael gwlgiau. Mae nhw'n plant llawd, efallai nhw
ddim wedi mynd allan o Lundain, or blaen ac yn
edruen ymlaen atun. Mae'r merched yn ffurhonnell & yn
dostbarth canol ac yn mynd i ysgol brasugl. Felly
mae nhw'n ffl arfer yn mynd at hen ac yn gadael ei
Rhieng.

5. Yn fy mharn i rwy'n meddwl bod ffurhonnell 2
wedi cael ei biefu oherwydd mae gid or plant
newn iws ac rhantfugo ohonin nhw yn edrych
hug at y camera.

6. Yn fy mharn i rwy'n meddwl bod ffurhonnell 3 oherwydd
mae, rhai plant hwn yno ac ~~hwy~~ hwyfud rhai plant
bach yno, hwyfud mae gushanol teimladan at ei wnebau.

7. Efallai mae'r llan yn dweud celwydd oherwydd mae ddim
rheswm pan mae'r llun wedi cael ei biefu. Roedd na
llawer o plant yn y llan ac hi ddim yn gwneud o
roedd na plant yn bob amser.

8. Mae ffotograff yn ddwyddiol i hyswyr ei weld sut mae
plant llundain yn cael ei tien pan roedd yn cael ei
sgwrt, ac sut roedd plant yn teimlo. Ac y saw arall
nid ydych chi ffotograff yn ddwyddiol oherwydd efallai
mae'r ffotograff wedi cael ei biefu, oherwydd efallai
mae'r person aedd wedi tyrru'r llun eisio'n dweud
bod roedd rhai plant yn hapus ac roedd rhai plant
yn drist am ommud. Hwyfud efallai mae'r llundain eisio-
llundain o plant trist oherwydd budd pobol yn y wlad
yn ei derbyn y plant. Dyda ffurhonnellau yn ddwyddiol
faint mae'r hyswrt y plant wedi cael ei danfon am, ac
hwyfud roeddwn ddim yn gwneud beth roedd ei bymudau
nhw yn y cefn o'r wlad.

Gweithgaredd 3 | Pam roedd yr Ateb Terfynol yn gyfrinachol? Beth gallwn ei ddysgu o'r Holocaust?

Er bod Anwen yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r agwedd ar hanes mae hi'n ei hastudio, ac er ei bod hi unwaith eto yn gallu rhoi rhai rhesymau i ateb y cwestiwn cyntaf, ei hymateb i'r ail gwestiwn yw dewis gwybodaeth o'r ffynonellau. Nid yw hi'n ceisio eu gwerthuso yma ac nid oes unrhyw dystiolaeth ei bod hi'n cyfuno tystiolaeth o'r ffynonellau i ateb yr ail gwestiwn.

Yr Ateb Terfynol

1. Roedd y natsïaol eisïan cadw'r Ateb yn gyfrinachol oherwydd roedd nhw ddim eisïan unrhyw un i protestio. Mae'r himmler yn roi gorchymyn i'r S.S i cadw'r ddauel. Roedd wedi dewis Auschwitz oherwydd roeddwn heill o unman. mae hwn yn cael ei dued yn ffynhonnell C.
- 2- "Mae rheini nad sydd yn copïo gorfennol wedi eu condemnio i'w hail-hadradd." Yn fy ~~am~~ rhain i mae'n bwyg i plant mewn ysgolion ddwsgu hys. Mae ffynhonnell A yn ddangos llun erchyll o'r iddeuon wedi marw yn beisen. Yn ffynhonnell B ch'n gallu weld y iddeuon yn cael ei symud mewn trenau. Tystiolaeth allie wiesl yn ffynhonnell ch. Roedd hi'n gallu copïo ffônau ac aroglu corffau yn cael ei llasgi. Dulan ddim un cerbyd ei trin fel hwn. Rydus in cedy y dulan gwledudol parchu ei gulidd.

Gweithgaredd 4 | Beth ddigwyddodd yn argyfwng Cuba? Beth oedd ei ganlyniadau?

Ar ôl ymchwilio i ddigwyddiadau 1962 a'u canlyniadau, gofynnwyd i'r dosbarth baratoi cyflwyniad PowerPoint i ddangos y prif ffactorau a achosodd yr argyfwng a'i brif ganlyniadau ar gyfer y byd. Mae Anwen wedi defnyddio'r rhyngrwyd yn effeithiol i ddod o hyd i amrywiaeth o ffynonellau gweledol i ddangos y pwyntiau mae am eu gwneud. Mae hwn yn dangos ei bod hi'n gallu dewis a chyfuno gwybodaeth o ffynonellau, ond unwaith eto nid yw hi'n eu gwerthuso. Mae hi'n nodi'n gywir rhai ffactorau a achosodd yr argyfwng, ond nid yw hi'n ceisio esbonio'r rhesymau dros ymateb yr Undeb Sofietaidd, er ei bod hi'n dangos ei bod hi'n deall ei fod wedi arwain at well perthynas rhwng UDA a'r USSR.

Argyfwng Ciwba 1962



Fidel Castro yn rheoli Ciwba

- Batista oedd yn rheoli Ciwba ar y dechrau
- Roedd Batista yn ffrind i UDA
- Ond roedd pobl Ciwba yn dlwad

- Yn 1959 llwyddodd Fidel Castro i gael gwarad o Batista



UDA – Ciwba – Rwsia




- Nid oedd Castro eisiau UDA yn Ciwba
- Nid oedd UDA eisiau Castro yn Ciwba
- Trefnodd Kennedy fod milwyr UDA yn ymosod ar Castro o Bae y Moch
- Fe wnaeth golli
- Stopiodd UDA brynu siwgr a tobacco Ciwba
- Beth oedd Castro yn mynd i wneud?

Ciwba a Rwsia

- Dywedodd Rwsia eu bod eisiau prynu siwgrwr a tobacco gan Ciwba



- Roedd Rwsia eisiau rhoi arfau yn Ciwba, heb ddewud wrth UDA



Ymateb UDA



- Blocio Ciwba.
- Dweud wrth Rwsia i gael gwared o'r arfau o Ciwba

Ymateb Rwsia

- Troi nol
- Tynnu arfau o Ciwba



- Dweud wrth UDA i dynnu arfau o Twcri

Diwedd yr Argyfwng?

Roedd UDA a Rwsia wedi bod yn cystadlu pa wlad oedd gryfaf. Ar ol Ciwba fe wnaethant gael perthynas well.



OND....mae ganddynt arfau perygls o hyd.....



Crynodeb a barn gyffredinol

Ystyriwyd Lefelau 4 a 5 a barnwyd mai Lefel 4 oedd yn cyd-fynd orau.

Yn ei hymchwiliad i fywyd gweithwyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac i rai o ddigwyddiadau pwysig yr ugeinfed ganrif, mae hi'n *disgrifio nodweddion y cyfnodau a astudiwyd, yn nodi newidiadau o fewn ac ar draws cyfnodau ac yn rhoi rhai o achosion a chanlyniadau'r prif ddigwyddiadau a newidiadau* (nodweddion o Lefel 4). Nid oes unrhyw dystiolaeth yn y gwaith hwn ei bod hi'n *nodu cysylltiadau rhwng nodweddion y cyfnodau hyn na rhwng achosion a chanlyniadau digwyddiadau a newidiadau* (nodwedd o Lefel 5).

Mae ei diagram ar wahanol safbwyntiau perchnogion y mwynogloddiau a'r rhai oedd yn gweithio ynddyn nhw yn dangos *sut y mae rhai agweddau wedi cael eu dehongli mewn gwahanol ffyrdd* (nodwedd o Lefel 4), ond nid yw hi'n *awgrymu rhesymau posibl dros hynny* (nodwedd o Lefel 5). Mae hi'n *dethol a chyfuno gwybodaeth o ffynonellau* yn ei hymchwiliad i argyfwng Cuba (nodwedd o Lefel 4) ond, er bod rhyw awgrym yn ei thrafodaeth o'r ffotograffau o blant ifaciwî ei bod hi'n *dechrau gwerthuso ffynonellau hanesyddol* (nodwedd o Lefel 5), nid oes unrhyw dystiolaeth arall yn ei gwaith ei bod hi'n gwneud hynny. Mae hi'n *dechrau cynhyrchu gwaith strwythuredig, gan ddefnyddio dyddiadau a thermau'n briodol* (nodwedd o Lefel 4), er bod y nodwedd hon yn fwy amlwg yn ei diagram a'i chyflwyniad PowerPoint nag yn ei gwaith ysgrifenedig.

Er mwyn gwneud cynnydd, bydd angen i Anwen gael cyfleoedd i ddatblygu ei dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng cyfnodau, rhwng achosion a chanlyniadau digwyddiadau a newidiadau, a chael cefnogaeth i strwythuro ei gwaith ysgrifenedig. Mae hi'n dechrau gwerthuso ffynonellau a bydd hi'n elwa ar weithgareddau sydd wedi'u strwythuro i'w chynorthwyo i ddatblygu'r sgil hon.

Mari

Lefel 6

Mae Mari yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathro yn gwybod llawer mwy am berfformiad Mari nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Mari ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athro Mari o'r farn mai Lefel 6 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad mewn hanes.

Cynlluniodd athro Mari i'r dosbarth ymchwilio i rai o'r digwyddiadau a'r datblygiadau pwysig yn yr ugeinfed ganrif, gan gynnwys effaith rhyfel byd-eang a newidiadau cymdeithasol a thechnolegol, a rôl unigolion arwyddocaol. Rhoddwyd cyfleoedd iddyn nhw ymgymryd ag ymchwiliadau annibynnol gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau daethan nhw o hyd iddyn nhw eu hunain, gyda rhywfaint o arweiniad gan yr athro, a hefyd defnyddio ffynonellau a ddewiswyd gan yr athro i ateb cwestiynau penodol. Darparodd y cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn gyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau ym mhob un o'r pum maes a nodwyd yn y rhaglen astudio.

Gweithgaredd 1 | Sut cafodd menywod y bleidlais?

Roedd y dosbarth i gyd wedi gwneud astudiaethau achos annibynnol ar y newidiadau ym mywydau menywod ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Roedden nhw wedi ymchwilio i rôl unigolion pwysig o'u dewis eu hunain, gan gynnwys arweinwyr y mudiad dros y bleidlais i fenywod a'u gwrthwynebwyr.

Roedd rhan o bapur arholiad dilynol yn cynnwys adran o ffotograffau a ffynonellau ysgrifenedig a oedd yn ymwneud â'r mudiad dros y bleidlais i fenywod. Bwriadwyd i'r cwestiynau yn yr adran hon asesu'r defnydd a wnaed o'r ffynonellau hyn, ond hefyd rhoi cyfle i ddisgyblion ddangos yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth roedden nhw wedi'u cael o'u hymchwiliadau unigol annibynnol.

Yn ei hastudiaeth annibynnol o fywydau menywod, mae Mari yn defnyddio ei gwybodaeth a'i dealltwriaeth o'r hanes a astudiwyd ganddi hi i ddisgrifio rhai o nodweddion gwaith ac addysg menywod ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, a gwneud cysylltiadau rhyngddyn nhw. Er hynny, er ei bod hi'n cyfeirio at yr amrywiaeth o brofiadau bryd hynny a'r gwahanol agweddau at addysgu bechgyn a merched, mae ei sylwadau yn rhai cyffredinol iawn ac nid ydyn nhw'n cynnwys llawer o fanylion. Mae ei sylwadau ar waith ac ar effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar y mudiad dros y bleidlais i fenywod yn dangos ei bod hi'n archwilio achosion a chanlyniadau digwyddiadau a newidiadau, ac yn dechrau eu dadansoddi. Yn ei hymateb i gwestiwn tebyg yn yr arholiad dim ond cyfeirio at effaith y gwaith a wnaeth menywod yn ystod y rhyfel y mae Mari, 'Yn fy marn i enillodd y fenyw y bleidlais trwy fynd i weithio adeg y rhyfel ...', ac nid yw hi'n cyfeirio o gwbl at effaith y mudiad dros y bleidlais i fenywod.

Ateb mewn arholiad

Yn eich barn chi sut enillodd y fenyw y bleidlais ?

Yn fy marn i enillodd y fenyw y bleidlais trwy fynd i weithio adeg y rhyfel oherwydd dangosodd y menywod i'r pobl bod nhw yr un eidd mor bwysig a dynion uchaf roedden nhw wedi llwyddo gweithio a gwnaeth arfau i'r dynion pan roedden nhw'n ymuno heb y menywod byddwn ni wedi colli'r rhyfel oherwydd byddai eisio cadw rhai dynion yn 31 i weithio.

Astudiaeth annibynnol

Addysg.

Amerer hyn roedd plant yn cael addysg lan tan un ar ddeg mlynedd oed. Roedd y merched yn dysgu sut i darllen, ysgrifennu, coginio a gwisgo. Roedd y bechgyn yn cael addysg llawer yn well na'r merched. Os roedd eich rhieni yn gyswrtu roddiwrch yn gallu dysgu i "North London Collegiate School," "Cheltenham Ladies College," Ysgolion Howell yn Llandaf a Dinbygh neu Ysgol yr Williams, Rhygellau, Rhaid talu. Rhif 12 ysgolion yma. Roedd pobl yn credu tanu bechgyn oedd pob gwellthio dim merched.

Gwellthio

Roedd y menywod yn gwellthio neuon plant fel diangnion yn coginio a gwisgo. Yn 1801 capodd y teipiadur ei creu ac erbyn 1910 roedd llawer o menywod yn gwellthio neuon aiffddfudd. Roedd y dynion yn cael gwellthio llawer yn well fel doctor a meddyg.

Hawliau

Yn 1857 yng Ngharol oes Victoria roedd gan y menywod yn hawl i ygganu. Roedd dim ond hawl ganddi ygganu a'r gŵr dim ond os roedd ganddi lythiolaeth bod y gŵr yn dysgu gyda menywod arall neu ei bod yn ei chanddi. Roedd hwn yn ddipl 17 llus.

Sarah Keen Cranogwen.

Capodd ei weni yn Llangrannog yn 1829. Roedd hi wrddi pondegynus ddipl i wellthio ar llong ei rhad. Roedd hi hifdyd ysgipennu barddoniaeth. Roedd hi yn dangos gallu menywod.

Suffragists - Millicent Fawcett

Millicent Fawcett dechreuodd y Suffragists, grŵp o oedd yn cerio cael y heddolais i penpryd. Roedd nhw yn hyrwyddu potensial, cyfnewidiadau a thrafferddiadau ond roedd nhw yn amlinellu llwyr arwynt.

Suffragettes - Emmeline Pankhurst

Yn 1901 roedd Emmeline Pankhurst wedi dechrau y Suffragettes. Roedd y Suffragettes yn llawer uwch na'r Suffragists. Roedd y Suffragettes yn llosgi tai a tophi fflur ar y prif ~~oer~~ wensdy. Roedd Emily Smith wedi tophi ei hunan o plasenn offffys y brwdr yn y Derby. Cafodd hi ar offffys ei ladd. Roedd y menywod yn hysbysu yn benderfynol o gael y heddolais.

Rhyfel Byd Cyntaf

Canodd y Suffragettes ar dechrau y Rhyfel Byd Cyntaf dechreu pe ~~o~~ oeth y menywod allan i weithio fel ffurfiwr, gweithio mewn ffatrïoedd i uned orfan, cerio ff.

Sut cafodd y menywod y heddolais?

Cafodd pob menyfwr dros 30 oed yr hawl i heddolais yn 1918 os oedd ei gwr yn talu trethi. Cafodd pob menyfwr dros 21 oed yr hawl i heddolais yn 1928.

Enillodd pob menyfwr dros 30 oed y heddolais os roedd ei gwr yn talu trethi, yn 1918. Oherwydd roedd Lloyd George seneddwr fawr y Suffragettes a oherwydd i gwrbyni y beth uwch y penpryd adeg y Rhyfel, digwyddodd beth ddigwyddodd. "Fe fyddai wedi bod yn gwell amlhysbys i ni ymladd rhwyd Cymdeithasus heb sgiliau, brenhiniaeth a gwrth dylai mesured y wlad hon."

Yn fy nam i bydder menywod ddim wedi cael y heddolais os byddai ddim rhwyd amlhysbys roedd y Suffragettes ddim yn gyfrif, roedd y Suffragists llawer yn rhyng gyfrif na'r Suffragettes. Roedd y Rhyfel wedi dangos y llwyddraeth faint mor gyfrif roedd menywod.

Gweithgaredd 2 | Pam defnyddiodd America y bom atomig?

Fel rhan o'u gwaith ar yr Ail Ryfel Byd, edrychodd y dosbarth ar chwe ffynhonnell a oedd yn rhoi amrywiaeth o resymau dros ddefnyddio'r bom atomig. Gofynnwyd i'r disgyblion grynhoi'r farn neu'r dehongliad a roddwyd gan bob ffynhonnell (cwestiwn 1), nodi'r dehongliad roedden nhw'n cytuno fwyaf ag ef, a rhoi rheswm dros hyn (cwestiwn 2), ac yn olaf esbonio, gan gyfeirio at y ffynonellau, pam ceir dehongliadau gwahanol o'r digwyddiad hwn (cwestiwn 3).

Mae Mari yn rhoi crynodeb byr o bob dehongliad, ac mae ei sylw ar ffynhonnell 4 yn dangos ei bod hi'n deall goblygiad llawn sylwadau James Byrnes, ond mae ei sylwadau ar ffynonellau eraill, megis ffynhonnell 2, yn dangos nad yw hi wedi llawn ddeall y pwyntiau sy'n cael eu gwneud. Mae hyn yn awgrymu nad yw hi ond yn dechrau gwerthuso ffynonellau hanesyddol a nodi'r rhai sy'n ddefnyddiol i ateb cwestiynau penodol. Er hynny, mae ei hymateb olaf ar y rhesymau dros y gwahanol ddehongliadau yn dangos ei bod hi'n dechrau esbonio'r rhain.

Y Bom Atomig

Ffynhonnell 1	Bu gollwng y bom yn gyfrwng i roi terfyn ar y rhyfel, arbed miliynau o fywydau. Penderfyniad milwrol pur i derfynu'r rhyfel ydoedd. Harry S. Truman, Arlywydd U.D.A. Awst 1945
Ffynhonnell 2	Byddai'n gamgymeriad tybio bod tynged Japan wedi ei phennu gan y bom atomig. Roedd ei chwmp yn sicr, cyn l'r bom gyntaf ddisgyn, o ganlyniad i rym aruthrol ar y môr. Syr Winston Churchill yn ei lyfr 'The Second World War' 1948.
Ffynhonnell 3	Yn fy marn i roedd gollwng dau fom atomig ar Japan ym mis Awst 1945 yn ddianghenraid Yn ôl yr Arlywydd Truman fe'i gwnaed i arbed cannoedd o filoedd o fywydau Americanaidd a Japaneaid ond byddai peidio a mynnu ildiad diamond wedi arbed y bywydau hynny, oherwydd yn fy marn i, byddai Japan felly wedi ildio ynghynt... Roedd gollwng y bomiau yn gamgymeriad o ddirywiad safonau moesol wrth ymladd rhyfeloedd modern. Y Maeslywydd Montgomery 1968.
Ffynhonnell 4	Rydym yn siarad am y bobl a oedd wedi penderfynu, yn gyfrwys iawn, i ddinistrio llongau America a morwyr America yn Pearl Harbour. James Byrnes, Ysgrifennydd Gwladol UDA yn siarad mewn cyfweiliad yn 1965.
Ffynhonnell 5	Roedd y Japaneaid wedi colli'r rhyfel yn barod. Y Gwyddonwyr oedd eisiau defnyddio'r bom er mwyn cyflawnhau y miloedd o bunnoedd a oedd wedi cael eu gwario arno'n barod. Admiral William Leahy – Pennaeth y Lluoedd Arfog yn U.D.A. 1950.
Ffynhonnell 6	Ffrwydrodd yr U.D.A. y bom atomig ar ôl y cyfarfod yn Potsdam yn 1945. Roedd nifer o swyddogion o'r UDA ddim eisiau i Rwsia wybod am y cynllun nac i fod yn rhan o'r trafodaethau heddwch ynglŷn â Japan. Hanesydd – Neil Wenborn 1985, Pictorial History

Gwaelth Donarth.

Y Ban Hwng.

1. Yn ffynhonnell 1 mae ein dwend bod y bwm yn gyflwynu i roi terfyn ar y mynel.

2. Yn ffynhonnell 2 mae ein dwend prysdrodd America y bwm er uwyn dangos pwr America.

Yn ffynhonnell 3 mae ein dwend prysdrodd America y bwm er uwyn ardd hysglau, meddair Americanau.

Yn ffynhonnell 4 mae ein dwend taw dial oedd e.

Yn ffynhonnell 5 mae ein dwend tawir gysdebu oedd einau profis bwm.

Yn ffynhonnell 6 mae ein dwend dangos pwr i Russia.

2. Ar y arian, mae'n well gennyf y dehongliad yn ffynhonnell 6 aches nagh oedd taw'r unig rheuon gadawodd America y bwm ar Japan i meddi Russia a i dangos bwm nagh dangosodd y bwm yn gyntaf, a dangos pwr.

3. Mae yna wahanol dehongliadau aches mae pob un ai bwm. Mae bwm sawl person yn dwend ei bwm o wahanol gwledydd, o America, fyddan ar wahanol adegau ee. 1950, 1968, 1985 a gwahanol popladau.

Gweithgaredd 3 | Beth ddigwyddodd yn Aberfan?

Astudiodd y dosbarth ddigwyddiadau 21 Hydref 1966 fel rhan o'u gwaith ar yr ugeinfed ganrif. Edrychodd y disgyblion ar adroddiadau papur newydd cyfoes a rhaglen ddogfen deledu am Aberfan. Trafododd Mari'r digwyddiad yn annibynnol â'i theulu, gan ofyn am eu hatgofion o'r diwrnod a'r hyn a ddigwyddodd yn ei sgîl, gan ddefnyddio rhai o'r atgofion hynny yn ei hadroddiad. Wrth wneud hyn, dangosodd Mari ryw faint o annibyniaeth wrth ddilyn eu trywyddau ymholi eu hunain. Mae hi wedi dewis, trefnu a defnyddio gwybodaeth berthnasol i lunio naratif celfydd eu strwythur, ac mae hi'n defnyddio dyddiadau a thermâu yn briodol.

Enghyd Papur Newydd
Aberkan.

Aberkan

40 mlynedd yn ôl i ddydd
Sadwrn. Dudd Gwener, Hydref 21,
1966 digwyddodd peth rhyddola
daeth lluch glo/warthaft i
lawr ar ben ysgot gwradd
Rengras Capodd 116 o blant ei
ladd, a athro a 144 yn gympwll.
Roedd pobl y portref yn gweld
hiddlu o anghyntans yn rhyd
am Aberkan. Roedd neb yn
guysbed beth oedd wedi digwydd.
Am cwarter wedi naw ar ddydd
gwener roedd lluch a gwarthaft
o'r lle glo wedi ymuno ar
afon ac wedi bwrw lawr panu
a ladd gŵr a gwartheg ac
wedyn dod lawr ar ben ysgot
yn llawn o blant. Bore am
hanner tyfuor oedd hi. Roedd
pobl teledu a papurau goŵn
rym. Roedd yr dyfod yn
llawn o bobl yn rhedeg yn
wyllt. Roedd dynion yn mynd
i newn i'r ysgot i chwilio am
~~am~~ blant. Roedd dim to
ar yr ysgot. Roedd bachgen
6ed dosbarth yn mynd i
helpu daeth y glawyr i
helpu roedden nhw yn
llawer o help. Roedd Eddie

Thomas y bocwr ar ei
benlymbau yntuna gyda ei
groen wedi dod iant o'i
fypedd a roedd gwared dros
ei ddwylo. Roedd en angharub
i weld a cerdded yn yr holl
lluch. Roedd en twrio feljet.
Roedd pobl yn gwaredi am
dawledu i weld os galle nhw
gwybed rhywun yn gwaredi.
Roedd llai a llai o blant yn
cael ei ddarganfod yn fawr. Ar
ôl 11 ar gloch roedd dim un
o'r plant yn fawr. Roedd y
dynion camera yn greulon with
nyrn awerhysurau dŵp.
Ethen etnes i starad a un o'r
plant a oedd yn yr ysgot,
dymwedodd "Roeddum yn lucas
bod ganddaŵ wallt gwyr
achos gwelodd un o'r dynion
peth golau yn y tyngyllust.
Roeddodd y dyn ei law trwy
bwl a fe dymwedodd fi allan. Mae
clw o'r dyn yno yn cais fi i
gael ar dap da fi. Yr wyf
yn ddidhgar i'r dyn yno. Roedd
e wedi adnab fy mwyd.
Capodd pawb ei ddarganfod beth
y cyff y plant yn cael ei gadw

yn y capel. Roedd rhieni yn
 alyd i weithio i capel i atrolod
 ei plant. Roedd rhieni yn tani
 ei casonau pan rodden nhw yn
 gweld cyff ei plant yn gwrdd
 yn y capel.

Roedd rhieni yn y capel yn
 golchi cyff y plant, roedd hi
 yn diwedd bod yn awgrym
 yn gwrdd yn y capel rhieni
 yn llefen. Roedd cyff y plant
 yn cael ei rhoi weithio
 ac wedi hynny roedd nhw yn cael
 rhoi rhieni dan bedd enghreifft.
 Mae corff yn y ffigur i
 bob un a chafodd ei ladd.
 Roedd ei diwedd i'w gweld.

Hyn roedd y dyfchunod alyd
 a welwyd enghreifft ar kledu.
 Mae pawb yn alyd i golchi,
 diwedd rhieni drwydd
 roedd pofft wedi gweld.
 Roedd ei edrych fel bon
 wedi glawio a roddu yn
 yr aer.

Y diwedd rhieni diwedd roedd
 pawb rhieni lyndod am
 gyfnewid hir ar yd hyn.



rhieni a phentyn yn cael
 ei achub.

Crynodeb a barn gyffredinol

Ystyriwyd Lefelau 6 a 7 a barnwyd mai Lefel 6 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae gwaith Mari ar yr ymgyrch dros y bleidlais i fenywod yn dangos nodweddion o Lefel 6, am ei bod hi'n *disgrifio* nodweddion *cymdeithas yn y gorffennol*, ac yn *nodi* rhai o'r *cysylltiadau* rhyngddyn nhw, gan gynnwys yr amrywiaeth o brofiadau bryd hynny a'r gwahanol agweddau at addysgu bechgyn a merched. Er hynny, er bod ei sylwadau'n dangos y dyfnder cynyddol o wybodaeth sy'n nodwedd o Lefel 6, maen nhw'n rhai cyffredinol iawn, ac nid oes unrhyw dystiolaeth ar gyfer yr *wybodaeth amlinellol a manwl* sy'n nodwedd o Lefel 7.

Darparodd Gweithgaredd 2 gyfle i weithio gyda gwahanol farn a dehongliadau. Mae ei hymateb i gwestiwn 2 yn y gweithgaredd hwn hefyd yn awgrymu ei bod hi'n *dechrau esbonio gwahanol ddehongliadau*, sy'n nodwedd o Lefel 6, ond nid ei bod hi'n *defnyddio'r ffynonellau yn feirniadol*, sydd hefyd yn nodwedd o'r lefel hon. Er hynny, yn ei hymateb i gwestiwn 3, mae'n amlwg bod Mari yn deall *sut a pham y mae gwahanol ddehongliadau wedi'u cynhyrchu*, sy'n dystiolaeth o feddwl sy'n nodweddiadol o Lefel 7.

Mae erthygl Mari ar Aberfan yn dangos lawer o nodweddion Lefel 7 yn ei *gwybodaeth a'u dealltwriaeth manwl*, a'r modd mae hi wedi *dewis, trefnu a defnyddio gwybodaeth berthnasol i lunio naratif celfydd ei strwythur*.

Yn awr, fel cam nesaf, mae angen i Mari ddatblygu ei sgiliau wrth ddefnyddio ffynonellau, gan eu gwerthuso a'u defnyddio yn feirniadol i ddod i gasgliadau cadarn.

Cydnabyddiaethau

Hoffai'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ddiolch i'r nifer fawr o athrawon, ysgolion, awdurdodau lleol, y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer y Dyniaethau a'r sefydliadau eraill sydd wedi helpu i ddatblygu'r canllawiau hyn.

Diolch yn arbennig i'r Grŵp Llywio, Gill Foley, Rhian Ditcher, Gareth Morgans, Kate Corken, Stephen Roberts, Nia Goode, Meinir Hughes ac Alun Morgan (ESTYN) a rhoddodd o'u hamser gwerthfawr i'n helpu i ddatblygu'r canllawiau hyn.

Hoffai APADGOS ddiolch hefyd i'r disgyblion a'r rhieni/warcheidwaid hynny a gytunodd i enghreifftiau o waith gael eu hatgynhyrchu yn y canllawiau hyn.

Yn benodol, mae APADGOS yn ddiolchgar i'r ysgolion canlynol am roi cymorth a deunyddiau:

Ysgol Cefn Meiriadog, Sir Ddinbych
Ysgol Gyfun Gwynllyw, Torfaen
Ysgol Gymraeg Bro Allta, Caerffili
Ysgol Gynradd Nantgaredig, Sir Gâr
Ysgol Gynradd Llanfechell, Ynys Môn
Ysgol Iau Cyfartha, Merthyr Tudful
Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd
Ysgol y Preseli, Sir Benfro.

Hoffai APADGOS ddiolch i'r canlynol am roi caniatâd i atgynhyrchu deunydd â hawlfraint yn y canllawiau hyn:

Aidan Hart Icons, aidanharticons.com (clawr a thudalen 40)
Llyfrgell Genedlaethol Cymru (clawr a thudalen 40)
Mary Evans Picture Library (clawr a thudalen 40)
Cardiff & Co (tudalen 40)
Corbis (tudalen 65).